

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd Naomi Stocks
Dyddiad: Dydd Iau, 9 Ionawr 2020 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00 0300 200 6222
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(08.45–09.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (09.00)

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21: sesiwn dystiolaeth 1

(09.00–11.00)

(Tudalennau 1 – 104)

Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21: sesiwn dystiolaeth 2

(11.00–11.45)

(Tudalennau 105 – 111)

Jane Hutt AC, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Gary Haggaty, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol,

Llywodraeth Cymru

Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymunedau, Llywodraeth

Cymru

4 Papurau i'w nodi

(11.45–11.50)



- 4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020 – 10 Rhagfyr 2019**
(Tudalennau 112 – 113)
- 4.2 Gohebiaeth i'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch ymateb i'r adroddiad ar fudd-daliadau yng Nghymru – 16 Rhagfyr 2019**
(Tudalennau 114 – 116)
- 4.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru ynghylch Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned – 17 Rhagfyr 2019**
(Tudalennau 117 – 119)
- 4.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch ei ymchwiliad i dlodi tanwydd – 18 Rhagfyr 2019**
(Tudalennau 120 – 121)
- 4.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 27 Tachwedd – 19 Rhagfyr 2019**
(Tudalennau 122 – 130)
- 4.6 Gohebiaeth at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gofyn am ragor o wybodaeth am ddiogelwch tân yn dilyn y cyfarfod ar 5 Rhagfyr – 20 Rhagfyr 2019**
(Tudalennau 131 – 135)
- 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 6 a 10 cyfarfod heddiw**
(11.50)
- 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21: trafod y dystiolaeth**
(11.50–12.30)
- Egwyl**
(12.30–13.00)

- 7 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 6**
(13.00–13.45) (Tudalennau 136 – 172)
Ceri Stradling, Dirprwy Gadeirydd, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Shereen Williams, Prif Weithredwr, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- 8 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 7**
(13.45–14.30) (Tudalennau 173 – 177)
Dominic MacAskill, Rheolwr Rhanbarthol, UNSAIN Cymru
Amber Courtney, Trefnydd Datblygu Gwybodaeth, UNSAIN Cymru
Mike Payne, Uwch-drefnydd y GMB
- 9 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 8**
(14.30–15.15) (Tudalennau 178 – 186)
Sally Chapman, Dirprwy Brif Swyddog a Swyddog Monitro, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Y Cynghorydd Jan Curtice, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Dave Daycock, Clerc a Swyddog Monitro, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- 10 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): trafod y dystiolaeth**
(15.15–15.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Dyddiad: 9 Ionawr 2020

Amser: 9.00 - 11.00 Y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

11.00 - 11.45 Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Teitl: Craffu ar gyllideb ddrafft 2020-21:

Cyflwyniad

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwariant ar gyfer 2020-21. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynigion cyllideb rhaglenni yn y dyfodol mewn perthynas â Llywodraeth Leol, Cymunedau, Cydraddoldebau a Thai ac Adfywio fel yr amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 16 Rhagfyr 2019.

Mae Atodiad A yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Tai a Llywodraeth Leol a detholiad o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â chydaddoldebau fesul Maes y Rhaglen Wariant, Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb (BEL).

Tablau Ariannol

Yr elfennau penodol ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yw Llywodraeth Leol, Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai, Adfywio a Diogelwch Cymunedol. Caiff y cyllidebau ar gyfer yr elfennau hynny eu crynhoi yn y tablau isod.

	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20. £000	Newid £000	Cyllideb ddrafft 2020-21: £000
Refeniw	3,804,131	128,363	3,932,494
Heb Fod yn Arian Parod	200	0	200
Cyfanswm yr Adnoddau	3,804,331	128,363	3,932,694

	Cyllideb Ddangosol 2020-21 £000	Newid £000	Cyllideb ddrafft 2020-21: £000
Cyfalaf Traddodiadol	476,139	94,272	570,411
Trafodion Ariannol	43,505	108,000	151,505
Cyfanswm Cyfalaf	519,644	202,272	721,916

Trosolwg o'r Gyllideb

Dyma bedwaredd gyllideb y Pumed Cynulliad. Paratowyd y gyllideb hon yn dilyn Cylch Gwario blwyddyn Llywodraeth y DU ac nid yn dilyn Adolygiad o Wariant fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.

Er gwaethaf gallu pennu cynlluniau refeniw a chyfalaf am flwyddyn yn unig, maent yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth hon i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus; darparu'r sefydlogrwydd ariannol sydd ei angen a buddsoddi yng Nghymru i feithrin twf economaidd a chefnogi ein blaenoriaethau. Mae'r pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus ac, yn fwy penodol, ar lefel y cyllid sydd ar gael yn golygu nad ydym o dan unrhyw gamargraff ynghylch yr heriau yr ydym ni a phartneriaid yn eu hwynebu ac rydym ni, a hwythau, yn parhau i wneud dewisiadau anodd.

Mae'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2020-21 wedi canolbwyntio ar wyth thema trawsbynciol fel y cytunwyd gan y Cabinet sef Tai, Cyflogadwyedd a Sgiliau, Blynyddoedd Cynnar, Gwell Iechyd Meddwl, Gofal Cymdeithasol, Tlodi, Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio. Roedd proses y gyllideb yn gyfle i wthio ymdrechion cyfunol y Cabinet yn eu blaen er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau i wella canlyniadau yn y meysydd blaenoriaeth trawsbynciol ac mae tystiolaeth ar flaenoriaethau yn y meysydd hyn wedi llywio gwariant ar lywodraeth leol, tai a chydraddoldebau.

Mae'r cynigion cyllidebol hyn hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i amddiffyn a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled ag y bo modd. Wrth wneud penderfyniadau ar wariant, yn ogystal ag ystyried y ffordd orau o ateb y galw cyfredol am wasanaethau, rydym hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau sy'n gallu atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r penderfyniad i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi creu ansicrwydd. Sefydlodd Llywodraeth Cymru dîm penodol i gydlynu'r gwaith sy'n deillio o drefniadau pontio Ewropeaidd; mae'r tîm hwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm presennol ym Mrwsel ac adrannau polisi.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Gronfa gwerth £50 miliwn ar gyfer trefniadau pontio Ewropeaidd er mwyn helpu busnesau, y trydydd sector, a gwasanaethau cyhoeddus

i gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit. Mae hyn yn adeiladu ar £5 miliwn a ddyrannwyd i barodrwydd ar gyfer Brexit yn ystod 2018-19 a 2019-20 fel rhan o'r cytundeb Cyllideb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru. Cynlluniwyd Cronfa Trefniadau Pontio Ewropeaidd mewn cydweithrediad â'r sefydliadau a'r busnesau y bwriedir iddi eu helpu.

Llywodraeth Leol

Cafwyd gwaelodlin cyllidebau refeniw o fewn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yng nghyllideb atodol gyntaf 2019-20. Derbyniodd y MEG Tai a Llywodraeth Leol ddyraniadau penodol i ddarparu gwell setliad ar gyfer llywodraeth leol, yn ogystal â chynnydd refeniw cyffredinol o £4 miliwn i'w ddefnyddio ar draws yr MEG. Defnyddiwyd y cynnydd cyffredinol mewn refeniw i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi trawsnewid llywodraeth leol, i ddarparu cefnogaeth mawr ei hangen ym maes diogelwch adeiladau ac i ddarparu cynnydd i gyllid refeniw Parciau Cenedlaethol i adfer cyllid i'r lefel a welwyd yn 2018-19.

Cyhoeddwyd cyllidebau cyfalaf dangosol ar gyfer 2020-21 fel rhan o gyllideb ddrafft 2019-20, darparwyd codiad cyfalaf cyffredinol o £15 miliwn i'r MEG sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer awdurdodau lleol.

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cytuno bod llywodraeth leol gref yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig o ansawdd da yn effeithiol i gymunedau ledled Cymru. Rydym yn cydnabod mai cryfder Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yw'r atebolrwydd democrataidd sy'n adlewyrchu anghenion, dyheadau a diwylliannau Cymru. Mae angen sefydliadau effeithiol, llwyddiannus arnom hefyd, sy'n addas at y diben ac yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae cyllid refeniw Llywodraeth Leol wedi cynyddu £198.013 miliwn, sy'n cynnwys cynnydd o £125.282 miliwn i'r Grant Cynnal Refeniw, trosglwyddiadau grantiau penodol blaenorol o £1.481 miliwn a chyfran o 95%, £71.25 miliwn, o gynnydd o £75 miliwn yn y dosraniad cyfraddau annomestig (mae'r 5% sy'n weddill yn cefnogi cyllid yr heddlu). Ar sail tebyg at ei debyg, o gymharu â 2019-20 mae hwn yn gynnydd o £184 miliwn yn y setliad llywodraeth leol.

Yn anochel, mae cyfnod hirfaith o gyntaf wedi cael effaith fawr ar yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus ac rydym yn cydnabod y penderfyniadau anodd iawn y mae awdurdodau lleol wedi gorfod eu gwneud er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol gyda chyllidebau sy'n lleihau mewn termau real. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi rheoli'r dewisiadau anodd hynny wrth leihau gwariant a chreu arbedion effeithlonrwydd er mwyn cynnal ansawdd gwasanaethau allweddol a chydbwyso dewisiadau lleol ar lefelau cynnydd yn y dreth gyngor.

Cefnogwyd awdurdodau lleol gennym fel rhan o gyllidebau drafft a therfynol ac atodol cyntaf 2019-20 gyda phecyn o grantiau penodol ychwanegol i ategu'r grant cynnal refeniw. Roedd hyn yn cynnwys cyllid i dalu'r costau a orfodwyd gan Lywodraeth y DU drwy'r newidiadau technegol y maent wedi'u gwneud i sawl cynllun

pensiwn y sector cyhoeddus a gafodd effaith arbennig ar gynlluniau pensiwn athrawon. Cefnogwyd awdurdodau lleol gennym gyda 100% o'r costau, er mai dim ond cyfraniad o 85% a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU. Darparwyd cyllid penodol gennym hefyd i fodloni penderfyniadau Llywodraeth y DU ar ddyfarniadau cyflogau athrawon cyn i hyn gael ei ddatganoli. Mae rhai o'r ffrydiau cyllido hyn bellach yn cael eu cynnwys yn y grant cynnal refeniw yn barhaus, fel cyllid tâl a phensiynau, mae eraill yn parhau yn 2020-21 fel grantiau penodol oni nodir yn benodol ei fod yn gyllid â therfyn amser.

Nid yw'r cyllid a ddarperir drwy'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol, gan gynnwys y cyllid gwaelodlin, yn cael ei neilltuo, a mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun. Fodd bynnag, ffactor arwyddocaol ym mhenderfyniad y Llywodraeth ar gynnydd i'r cyllid ar gyfer setliad refeniw llywodraeth leol fu'r bwriad i gydnabod effaith tâl a phensiynau athrawon am weddill y flwyddyn academaidd gyfredol, i ddarparu cyllid y tu hwnt i hyn, i gydnabod effeithiau'r dyfarniad ar gyflogau athrawon yn y dyfodol, a ddaw i rym o fis Medi 2020 ac i gefnogi gwasanaethau eraill lle mae rhywfaint o bwysau sylweddol hefyd. Mae awdurdodau lleol yn darparu llawer o wasanaethau sydd o natur ataliol sylfaenol neu eilaidd. Mae'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i lywodraeth leol yn rhan o'n hymrwymiad i'w cefnogi i barhau i ddarparu gwasanaethau ataliol o'r fath. Wrth wneud penderfyniadau ar ddefnyddio'r cyllid hwn sydd heb ei neilltuo, bydd awdurdodau lleol yn cynnal eu hasesiadau eu hunain o effeithiau eu cynigion ar wahanol grwpiau a chymunedau, gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

Dyraniad o £3 miliwn i gryfhau a chefnogi trawsnewid llywodraeth leol

Cyflwynwyd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Tachwedd 2019. Rhagwelir y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ganol 2020. Defnyddir y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth, yn rhannol, i frwr ymlaen â gweithredu'r ddeddfwriaeth hon a fydd yn cyflawni pecyn mawr o ddiwygiadau gan gynnwys: fframwaith perfformiad newydd a dull gwella o dan arweiniad y sector, dull newydd o weithio rhanbarthol ymhlith awdurdodau lleol a nifer o fesurau gyda'r nod o wella didwylledd a thryloywder prif benderfyniadau'r cyngor. Mae asesiad effaith rheoliadol llawn wedi'i gwblhau ac mae wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil. Cwblhawyd asesiadau effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Hawliau Plant hefyd. Canfu'r rhain nifer o effeithiau cadarnhaol a ragwelwyd gan gynnwys:

- llywodraeth leol fwy amrywiol, cynrychioliadol, tryloyw, sy'n cynnwys pob aelod o'r gymuned yn gadarnhaol ac yn agored drwy ehangu'r fasnachfaint etholiadol, dyletswydd ar awdurdodau lleol i annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol a mwy o hyblygrwydd i gynghorwyr drwy ddarpariaethau fel presenoldeb o bell a darpariaethau absenoldeb teuluol wedi'u diweddarau.
- Gostwng yr oedran pleidleisio i gynnwys pobl ifanc 16 oed gan arwain at ymgysylltiad cynharach yn y broses ddemocrataidd, a allai arwain at fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd yn fwy cyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd.

Yn ogystal â chefnogi gweithrediad y Bil, bwriad y cyllid ychwanegol yw cefnogi camau gweithredu, gan gynnwys gweithio'n agos gyda CLILC, ym meysydd partneriaeth y gweithlu, datblygu arweinyddiaeth, trawsnewid digidol, tystiolaeth a modelu diwygiadau cyllid, datgarboneiddio a gweithgareddau trawsnewidiol eraill.

Grant Plant a Chymunedau

Bydd cyllid ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau yn 2020-21 yn cael ei gadw ar lefelau 2019-20. Bydd hyn yn galluogi'r holl gynlluniau unigol yn y Grant Plant a Chymunedau, gan gynnwys Cymunedau am Waith a Mwy, Dechrau'n Deg a'r Gronfa Waddol, i barhau i ddarparu yr un lefel o wasanaeth i unigolion a chymunedau bregus yn 2020-21. Mae'r cyllid hwn yn ataliol ei natur, mae ganddo ffocws hirdymor ac mae'n cefnogi cydweithio ymhlith y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Nod y Grant Plant a Chymunedau yw mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r oedolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth. Mae'n ceisio lliniaru neu gael gwared ar anfantais i bobl agored i niwed er mwyn eu galluogi i gael yr un cyfleoedd bywyd ag eraill, ac felly gyfrannu at Gymru fwy cyfartal. Datblygwyd y dull Ariannu Hyblyg gan weithio'n agos ag awdurdodau lleol, a gydweithiodd â'i gilydd ac â Llywodraeth Cymru.

Mae Aliniad Cyllido yn rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n elwa o arian grant mewn ffordd fwy cydweithredol ac integredig. Gall awdurdodau lleol ystyried ffyrdd newydd o gomisiynu gwasanaethau ar y cyd, ac alinio a dylunio gwasanaethau yn well i ddiwallu anghenion pobl yn eu hardaloedd. Mae rhai awdurdodau lleol yn dechrau cysylltu'r Nodau Llesiant yn eu Fframweithiau Canlyniadau â'u canlyniadau o ran Blaenoriaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Dyraniad o £15 miliwn i Gyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol

Mae Cronfa Gyfalaf Gyffredinol Llywodraeth Leol yn ffynhonnell gyllid allweddol, ochr yn ochr â benthyca a grantiau penodol sylweddol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith lleol. Cyhoeddwyd pecyn cyllid cyfalaf cyffredinol ychwanegol tair blynedd o £100 miliwn ochr yn ochr â chyllideb derfynol 2019-20 gyda £50 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer 2018-19, £30 miliwn ar gyfer 2019-20 ac £20 miliwn ar gyfer 2020-21. Mae'r £15 miliwn ychwanegol hwn yn cynyddu'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2020-21 i £35 miliwn. Mae hyn yn helpu i esmwytho'r proffil cyllido ac yn cefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglenni cyfalaf sefydlog. Mae'r cyllid ychwanegol, er yn gymharol fach, yn caniatáu cyflymu rhai cynlluniau cyfalaf neu'n hwyluso awdurdodau lleol i fenthycu llai, sy'n cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa refeniw awdurdodau drwy leihau costau gwasanaethu.

Felly, cyfanswm cyllid cyfalaf cyffredinol llywodraeth leol ar gyfer 2020-21 fydd £197.8 miliwn (yn cynnwys grant cyfalaf cyffredinol o £109 miliwn a benthyca â chymorth heb ei neilltuo o £88.8 miliwn).

Defnyddir cyllid cyfalaf cyffredinol gan awdurdodau lleol i gefnogi eu cyfraniad at Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif; rhwydweithiau ffyrdd lleol a gwasanaethau megis tai, datblygu a gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â gwaith cynnal a chadw cyfalaf hanfodol ar draws ystadau llywodraeth leol. Nid yw'r cyllid wedi'i neilltuo ac mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon ar gyfer eu hardal leol. Bydd angen i ddatgarboneiddio fod yn ffactor cynyddol bwysig wrth wneud penderfyniadau.

Gall cyllid gefnogi'r economi leol drwy gaffael contractau lleol ac er bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu contractau, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda nhw drwy'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi a'r Cod "Dwy Haen" i gael gwared ar arferion gwaith annheg a sicrhau manteision eraill.

Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol ym Mhartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, sydd yn dwyn ynghyd gyfranwyr allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i hyrwyddo a monitro bioamrywiaeth a chymau gweithredu ar yr ecosystem yng Nghymru. Mae ei Grŵp Gweithredu yn darparu cyfeiriad cyffredinol y gweithgaredd ar gyfer Cynllun Adfer Natur Cymru sy'n darparu ffocws ar gyfer sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ar lefel leol ynghyd â chyfrannu at sawl noda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan bob awdurdod lleol gynllun bioamrywiaeth y dylid ei ystyried yn rhan o unrhyw gynllunio cyfalaf.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio sut mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn gwneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol bennu a chyhoeddi amcanion llesiant i ddangos sut y byddant yn gweithio i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Fel Llywodraeth, rydym yn deall bod gwasanaethau hanfodol drwy lywodraeth leol, o ofal cymdeithasol i addysg, cyngor a chefnogaeth neu deithio llesol yn sicrhau iechyd a llesiant ehangach pobl yng Nghymru.

Dywed awdurdodau lleol wrthym mai'r meysydd lle maent yn wynebu'r pwysau mwyaf yw addysg a gofal cymdeithasol. Bydd y £198.013 miliwn ychwanegol o gyllid sy'n llifo drwy'r setliad yn gyfraniad sylweddol i ymateb i'r pwysau hynny. Nid yw'r ffynhonnell gyllido hon wedi'i neilltuo; llywodraeth leol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion lleol a darparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Er bod mwyafrif y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol yn mynd drwy'r Setliad Llywodraeth Leol - tua £4.5 biliwn - mae yna hefyd swm sylweddol o arian grant penodol, tua £1 biliwn i gefnogi gwasanaethau lleol. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ffrydiau eraill o gyllid drwy eu pwerau codi treth gyngor a thrwy ffioedd a thaliadau lleol.

Gyda phwysau ariannol mewn addysg a gofal cymdeithasol wedi'u hamlygu, mae disgwyl i'r setliad uwch, a'r cyllid grant penodol parhaus, gefnogi nodau Cymru Ffyniannus a Chymru Fwy Cyfartal yn benodol drwy ddatblygu poblogaeth addysgedig lle y gall pawb gyflawni eu potensial beth bynnag eu cefndir; a Chymru lachach lle mae gofal cymdeithasol unigolyn yn ei alluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas a gwneud y gorau o'i les corfforol a meddyliol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda llywodraeth leol drwy Is-Grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru wedi esblygu gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal i gynyddu'r cyfathrebu ag arweinwyr llywodraeth leol, a Gweinidogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn mynychu i drafod meysydd polisi ag arweinwyr llywodraeth leol a CLILC. Mae'r dull mwy cydweithredol hwn wedi'i groesawu gan arweinwyr llywodraeth leol a gweinidogion.

Gwariant ar gamau ataliol

Mae awdurdodau lleol wrth gwrs yn gyflenwr allweddol o ran gwasanaethau ataliol, er enghraifft drwy addysg ysgolion, gan roi cyfle i blant a phobl ifanc ffynnu a chyflawni eu potensial, i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill sy'n sicrhau bod pobl yn gallu bod yn rhan o'u cymunedau, a gall hyn leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus eraill fel y GIG. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu yn sgil galw cynyddol am wasanaethau adweithiol sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau ataliol. Drwy gydweithio rhwng awdurdodau, â Llywodraeth Cymru, drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a dulliau cydweithredol eraill, mae awdurdodau a phartneriaid eraill yn ymchwilio i'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau i wneud y defnydd gorau o bob punt sydd gennym.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael mwyafrif helaeth eu cyllidebau gan awdurdodau lleol yn hytrach nag yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn darparu referniw ychwanegol o £848,000 a £670,000 o gyfalaf i ychwanegu at eu gwaith ar ddiogelwch ac atal tân. Mae hyn yn canolbwyntio'n benodol ar atal tanau mewn cartrefi a thanau a gafodd eu cynnau'n fwriadol, ac mae wedi cyfrannu at y gostyngiad parhaus mewn tanau ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Sut mae tystiolaeth yn llywio'r gwaith o bennu blaenoriaethau a dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal eu hasesiadau effaith eu hunain fel rhan o'u penderfyniadau ar gyllidebau lleol. Yn gyffredinol, mae CLILC a llywodraeth leol wedi darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ac i Lywodraeth Cymru a oedd yn canolbwyntio ar y pwysau sylweddol ym maes gofal cymdeithasol addysg, yn sgil costau'r gweithlu ac o ymyriadau costau uchel.

Drwy ddarparu cyllid ychwanegol rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei ddefnyddio yn bennaf yn y meysydd hyn gan adlewyrchu rhai o'r pwysau penodol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Bydd cyllid ychwanegol mewn addysg yn golygu y gellir cynnal gwasanaethau ysgolion a chefnogi athrawon i gyflawni yn erbyn ein cenhadaeth genedlaethol dros addysg. Heb yr arian ychwanegol hwn i gefnogi'r rheini a phwysau eraill, byddai awdurdodau lleol yn wynebu'r angen i leihau gwasanaethau neu godi incwm o ffynonellau eraill. Disgwylir mai ar y plant a'r bobl ifanc hynny sydd â'r canlyniadau addysgol isaf y byddai'r effaith i'w themlo fwyaf - y rheini o deuluoedd incwm is a rhai lleiafrifoedd ethnig. Mae adroddiad Llesiant Cymru 2019 yn dangos bod lefelau cymwysterau ymhlith lefelau'r boblogaeth yn parhau i gynyddu, er bod gwahaniaethau mawr o hyd mewn cyrhaeddiad yn yr ysgol ar gyfer gwahanol grwpiau poblogaeth. Sgiliau a chymwysterau yw'r dylanwad unigol mwyaf ar siawns pobl o fod mewn gwaith a'r dylanwad mwyaf ar eu hincwm. Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn parhau i gael canlyniadau gwaeth na grwpiau eraill. Y "sgôr pwyntiau capio 9" yw'r dangosydd cenedlaethol ar berfformiad ysgolion uwchradd. Roedd y sgôr ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim 77.4 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer disgyblion eraill. Mae hyn gyfwerth â bron i ddau TGAU neu lai ar radd C ar gyfartaledd fesul disgybl. O safbwynt rhywedd mae merched yn parhau i gael gwell canlyniadau addysgol na bechgyn; yn 2019 lleihaodd y bwlch i'r rhai sy'n cyflawni'r trothwy cynhwysol Lefel 2

yng Nghyfnod Allweddol 4 i 10.1 pwynt canran. Mae'r data diweddaraf yn parhau i ddangos rhai gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau ethnig, gyda chyfran uwch o blant o ethnigrwydd Asiaidd, Tsieineaidd a chymysg yn cyrraedd y lefelau cyrhaeddiad disgwylidig na'r rhai o gefndir Gwyn. Mae cyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn isel ar gyfer plant teithwyr a sipsiwn.

Bydd cyllid hefyd yn cefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol, lle mae'r galw yn cynyddu ac awdurdodau lleol yn ceisio moderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau. Mae Awdurdodau Lleol wedi nodi'n benodol y galwadau cynyddol mewn gwasanaethau plant. Bydd mwy o gyllid yn cefnogi plant a phobl ifanc anabl, gan gydnabod eu hamrywiaeth, cefnogi eu hannibyniaeth a'u dewisiadau, eu grymuso a pharchu eu hawliau. Ym maes gofal cymdeithasol pobl hŷn mae'n cefnogi'r rhai ar incwm is a hefyd y rhai sy'n ymdopi ag anawsterau corfforol a meddyliol y gellir eu hwynebu wrth i ddinasyddion heneiddio. Dywed adroddiad Llesiant Cymru fod dadansoddiad diweddar (yn seiliedig ar 2015-2017) yn dangos bod y bwlch mewn disgwylid oes iach rhwng y mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig wedi aros yn sefydlog - ond ei fod yn 18.1 mlynedd i ddynion a 19.4 mlynedd i fenywod.

Dangoswyd bod gwariant ar wasanaethau awdurdodau lleol yn arbennig o bwysig o ran cefnogi menywod. Mae ymchwil yn y DU¹ a gomisiynwyd gan Grŵp Cyllideb y Menywod yn dangos bod newidiadau i drethi, budd-daliadau a gwariant cyhoeddus wedi cael effaith anghymesur ar fenywod, gyda menywod du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a menywod anabl yn cael eu taro waethaf. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Landman Economics ymchwil yn 2018 hefyd yn dwyn y teitl "The cumulative impact of tax and welfare reforms". Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y diwygiadau'n cael effaith anghymesur o negyddol ar sawl grŵp gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl, rhai grwpiau ethnig a menywod. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod angen gwasanaethau cyhoeddus, yn fwy tebygol o weithio yn y sector cyhoeddus ac yn fwy tebygol o orfod cynyddu eu gwaith di-dâl pan fydd gwasanaethau'n cael eu torri. Mae nifer anghymesu o'r gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol yn cael eu darparu gan fenywod ac i fenywod a phlant, gan gynnwys gofal cymdeithasol, trafndiaeth a thai, yn uniongyrchol iddynt hwy eu hunain neu'n anuniongyrchol i eraill y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r gwasanaethau hyn yn hanfodol er mwyn rhoi cyfle i fenywod chwarae rhan lawn yn yr economi.

¹ <https://wbg.org.uk/analysis/women-and-the-spending-review/>

Tai ac Adfywio

Gyda dyraniadau MEG yn cael eu cadw ar lefelau 2019-20 (cam cyllideb atodol cyntaf), rydym wedi gallu sefydlogi cyllidebau allweddol ar lefel cyllidebau 2019-20, gan gynnwys cyllidebau digartrefedd a'r Grant Cymorth Tai. Rydym hefyd wedi darparu dyraniad ychwanegol o £0.5 miliwn i gefnogi'r gwaith pwysig sydd ar y gweill i wella diogelwch adeiladau.

Cyhoeddwyd cyllidebau cyfalaf dangosol ar gyfer 2020-21 fel rhan o gyllideb ddrafft 2019-20. Gwnaed dyraniadau cyfalaf cyffredinol a thrafodion ariannol ychwanegol i adeiladu ar y waelodlin hon.

Mae tai yn faes blaenoriaeth yn Ffyniant i Bawb. Mae'r ddogfen yn cydnabod bod *“sylfaen byw'n dda yw cael cartref fforddiadwy o ansawdd da sy'n dod ag ystod eang o fanteision o ran iechyd, dysgu a ffyniant.”* Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, ar ôl gosod targedau tai fforddiadwy yn y llywodraeth hon a'r llywodraeth flaenorol (20,000 ar hyn o bryd). Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyflenwad o dai fforddiadwy drwy ei Grant Tai Cymdeithasol, Grant Cyllid Tai a'i Rhaglen Tai Arloesol sy'n darparu tai cymdeithasol a chanolradd. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn enwedig tai cymdeithasol er mwyn lleihau'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol ac ar wasanaethau digartrefedd gan gynnwys hosteli a llety gwely a brecwast.

Mae buddsoddiad mewn tai hefyd yn darparu cefnogaeth i economi Cymru o ran cynnal a chefnogi swyddi yn y diwydiant adeiladu a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig. Mae hyn yn cyfrannu at yr agenda trechu tldi o ran darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau tai yn sicrhau'r manteision cymunedol gorau posibl o'u caffael fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i sicrhau'r effaith leol orau posibl o'n buddsoddiad ledled Cymru.

Mae swyddi a gaiff eu creu yn sgil datblygu tai yn golygu bod llawer o'r gweithlu adeiladu sy'n ddi-waith yn cael eu cyflogi, gyda'r holl fanteision a ddaw yn sgil hynny yn ogystal â lleihau gwariant ar fudd-daliadau a chynyddu cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a hyfforddiant.

Mae'r cyllid yn gweithio tuag at gyflawni'r saith nod llesiant ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Yn benodol, gall tai gweddus a fforddiadwy helpu i gyflawni cymunedau mwy cyfartal, llewyrchus, iachach a mwy cydlynol, gan gyfrannu at Gymru iach sy'n fwy cyfartal. Dangosir hyn gan y manteision iechyd clir o gael cartref o ansawdd da sy'n fforddiadwy ac wedi'i leoli mewn amgylchedd diogel. Mae buddsoddi arian cyhoeddus mewn adeiladu ac adnewyddu cartrefi yn cyfrannu at economïau cenedlaethol a lleol, gan greu a chefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi ynghyd â gwella iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl. Amcangyfrifir y bydd gwario £1 ar addasiadau cyn rhyddhau pobl o'r ysbyty yn cynhyrchu £7.50 o arbedion cost ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae tai fforddiadwy wedi'u hariannu gan grant yn cael eu hadeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru (DQR) sy'n cynnwys adeiladu i safonau cartrefi oes. Mae cartrefi sydd wedi'u hadeiladu i'r safonau hyn yn haws eu haddasu i ganiatáu i denantiaid hyn a bregus aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy. Bydd buddsoddi mewn tai presennol a newydd gyda gwell effeithlonrwydd ynni yn helpu i leihau tldi tanwydd a dibyniaeth ar fudd-daliadau. Mae pob £1 sy'n cael ei

gwario ar wella cynhesrwydd mewn cartrefi bregus yn arwain at £4 o fanteision iechyd.

Mae adroddiad y Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio a gyhoeddwyd ar 18 Gorffennaf 2019 yn argymhell, erbyn 2025 fan bellaf, bod yn rhaid i bob cartref newydd sy'n cael ei adeiladu yng Nghymru fod yn ddi-garbon, yn effeithlon o ran ynni a dŵr ac yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Dylid gwneud gwiriadau annibynnol i sicrhau bod y safonau uwch hyn yn cael eu cyrraedd. Bydd hyn yn atal yr her o ran ôl-ffitio cartrefi rhag cynyddu o ran maint a chostau. Dylai pob cartref a gaiff ei adeiladu gydag arian cyhoeddus gyrraedd y safonau hyn erbyn 2021 fan bellaf.

Mae effeithlonrwydd ynni hefyd yn nodwedd o'r cynllun Cymorth i Brynu yng Nghymru bellach. Mae 95% o'r holl gartrefi newydd a werthir drwy'r cynllun yn cael gradd B EPC. Fel rhan o'r asesiad fforddiadwyedd i ymgeiswyr, mae costau ynni'n cael eu hystyried yn seiliedig ar sgôr EPC y tŷ sydd i'w brynu. Mae hyn wedi helpu i godi effeithlonrwydd ynni gyda darpar ymgeiswyr, fel y bwriadwyd gan y prosiect 'LENDERS', a ddatblygodd y fethodoleg hon.

Grant Cymorth Tai

Rydym yn falch ein bod wedi gallu cynnal y Grant Cymorth Tai yn 2020-21 gyda chyllideb o £126.8 miliwn yn yr un modd ag a gwnaed eleni.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd a llesiant pobl sy'n agored i niwed drwy ddarparu'r gefnogaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i aros yn eu cartrefi eu hunain ac felly atal digartrefedd neu'r angen i fynd i leoliad sefydliadol. Mae'n sicrhau canlyniadau iechyd, cyflogaeth a chydlyniant cymunedol pwysig drwy gynorthwyo pobl i ganfod tai sefydlog, mynd i'r afael â ffyrdd o fyw di-drefn a'r problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a throseddau a allai fod yn sail iddynt. Mae'r grant hefyd yn cefnogi pobl hŷn a'r rhai ag anabledd dysgu i gynnal eu hannibyniaeth a'u bywydau yn y gymuned.

Rydym wedi gweithio'n galed i adolygu'r trefniadau ar gyfer y Grant Cymorth Tai newydd mewn ffordd gydgyngyrchionol gyda rhanddeiliaid. Dyluniwyd yr ymgysylltiad helaeth hwn i sicrhau bod ein polisi'n integreiddio rôl tai da ochr yn ochr ag iechyd, gofal cymdeithasol, Cyfiawnder Troseddol ac ymyriadau cyflogaeth, gyda rolau wedi'u diffinio'n glir i bob parti mewn trefniadau cydgynllunio.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn parhau i gefnogi ystod o ymyriadau sy'n ceisio sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal, a lle nad oes modd gwneud hynny, sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n ailddigwydd. Amlygir natur ataliol y grant gan y gostyngiad y mae'n ei greu yn y pwysau ar y GIG a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Dros amser rydym wedi adeiladu tystiolaeth gref i werthuso llwyddiant y grantiau sy'n rhan o'r Grant Cymorth Tai (Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru). Er enghraifft, mae ein gwaith gyda chronfa ddata SAIL Prifysgol Abertawe wedi cysylltu data tai ac iechyd ac yn dechrau dangos yr effaith y gall cymorth tai ei chael wrth leihau'r defnydd o wasanaethau iechyd. Bydd y fframwaith canlyniadau sengl yr ydym yn ei ddatblygu i gynnwys canlyniadau Grant Cymorth Tai a Grant Plant a Chymunedau hefyd yn gwella ein gallu i gysoni rhaglenni grant a dangos gwerth am arian.

Digartrefedd

Mae Ffyniant i Bawb yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddod â phob math o ddigartrefedd i ben; felly mae wedi bod yn bwysig cynnal ein cyllideb digartrefedd ar yr un lefel ag y gwnaed yn 2019-20 (£17.9 miliwn).

Mae'r Grant Atal Digartrefedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gyda'r nod o atal digartrefedd, a lle na ellir ei atal yna sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n ailddigwydd. O'r herwydd, gall y cyllid hwn helpu i leihau effeithiau negyddol ar unigolion ac aelwydydd a lleihau'r baich yn y dyfodol ar bwrs y wlad y byddai cynyddu digartrefedd yn ei greu fel arall.

Mae'n ariannu cymysgedd o weithgaredd sylfaenol i weithgaredd aciwt. Fel y nodwyd yn ein datganiad strategol ar atal digartrefedd, a gyhoeddwyd ar 8 Hydref 2019, ar hyn o bryd mae llawer o ffocws y gweithgaredd ar y pen aciwt. Os ydym am gyflawni ein gweledigaeth o ddod â digartrefedd i ben, yna mae'n rhaid i'n dull ni gefnogi'r rhai sy'n ddigartref ar hyn o bryd i gael llety, ond hefyd lleihau'r llif o unigolion a theuluoedd sy'n cwmpo i ddigartrefedd drwy fuddsoddi mwy mewn camau atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol. Felly bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein dull polisi esblygol, sy'n ceisio symud adnoddau i ganolbwyntio ar gamau atal cynharach fel ein bod, yn yr hirdymor, yn cynnal system lle mae digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n ailddigwydd.

Mae atal digartrefedd yn fater i wasanaethau cyhoeddus ehangach ac o'r herwydd, mae'r cyllid hwn yn cefnogi ystod o brosiectau cydweithredol sy'n cynnwys partneriaid ym meysydd llywodraeth leol, ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a throseddau a chyfiawnder. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dull strategol diwygiedig o fynd i'r afael â digartrefedd ac mae'r cyllid hwn yn rhan hanfodol o gyflawni yn erbyn y strategaeth honno.

Byw'n Annibynnol

Mae addasiadau tai yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl hŷn ac anabl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel. Mae buddsoddiad ymlaen llaw mewn addasiadau tai yn lleihau'r galw ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy atal yr angen i gael eu derbyn i'r ysbyty a chyflymu'r broses o ryddhau. Mae'r gefnogaeth barhaus i wasanaethau Gofal a Thrwsio ac addasiadau tai a ddarperir drwy'r cyllid hwn yn unol i raddau helaeth ag egwyddorion Cymru Iachach, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r dull a nodir yn Ffyniant i Bawb.

Agwedd allweddol ar ein gwaith yn y maes hwn yw symleiddio'r trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn er mwyn i unigolion a theuluoedd eu deall yn well. Er enghraifft, rydym wedi cyhoeddi safonau gwasanaeth addasiadau tai newydd i hyrwyddo mwy o gysondeb mewn gwasanaethau ledled Cymru waeth beth yw deiliadaeth unigolyn neu ble mae'n byw. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil i ddadansoddi'r trefniadau dyrannu cyfredol. Y bwriad yw y bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i lywio opsiynau ar gyfer symleiddio systemau cyllido a hyrwyddo mynediad mwy teg i addasiadau.

Rhaglen Diogelwch Adeiladu

Mae'r Rhaglen Diogelwch Adeiladau yn ymateb i argymhellion a amlinellir yn 'Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladu i adeiladau mwy diogel yng Nghymru' a luniwyd mewn ymateb i drychineb Grenfell. Mae gwaith y rhaglen yn canolbwyntio ar ddiwygiadau i sicrhau bod diogelwch adeiladau preswyl uchel yng Nghymru yn cael ei wella. Mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd ers trychineb Grenfell wedi ail-bwysleisio'r angen i weithredu yn y maes hwn. Bydd y ffrwd gyllid newydd hon (refeniw o £0.5 miliwn yn 2020-21) yn caniatáu inni wneud cynnydd wrth ymateb i'r materion hyn. Bydd yr arian yn caniatáu inni weithio gydag awdurdodau lleol a'r gwasanaeth tân ac achub i sefydlu tasglu a fydd yn gallu atgyfnerthu a chyflymu'r gwaith rheoleiddio a gorfodi sydd eisoes ar y gweill.

Bydd y gyllideb yn cael ei thargedu at waith atal sylfaenol ac eilaidd, gan weithio gyda chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus (drwy reoleiddio a gorfodi) i hyrwyddo a gweithredu lle bo angen i leihau'r risg o farwolaeth a/neu anaf o ganlyniad i dân.

Mae'r gwaith cychwynnol dros y 12-18 mis nesaf yn canolbwyntio ar dreialu ffyrdd newydd o weithio, gan hyrwyddo mwy o ffocws ar ddiogelwch adeiladau a datblygu polisi. Yna, yn dilyn Papur gwyn, bwriedir cyflwyno diwygiadau deddfwriaethol.

Bydd ffocws cychwynnol y gwaith hwn yn targedu'r rhai sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio adeiladau preswyl uchel (18m / 7 llawr +), yn ogystal â'r rhai sy'n byw mewn fflatiau uchel neu sy'n berchen ar fflatiau mewn adeiladau uchel.

Benthyciadau Tai

Mae dyraniad cyfalaf trafodion ariannol o £50 miliwn yn ein galluogi i ddarparu benthyciadau ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynorthwyo gydag ariannu eu cynlluniau datblygu uchelgeisiol ar gyfer tai cymdeithasol newydd. Os cytunir y gellir darparu'r benthyciadau hyn ar gyfradd llog o ddim dros 25 mlynedd, gallent ostwng lefel y grant cyfalaf sydd ei angen i wneud y cynlluniau tai cymdeithasol yn hyfyw gan liniaru peth o'r galw ar y rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol bresennol.

Bydd cyllid yn helpu i leddfu'r pwysau ar gyllideb y Grant Tai Cymdeithasol sy'n cwmpasu'r cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i adeiladu cartrefi newydd sy'n helpu i wella profiadau pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yng Nghymru.

Cymorth i Brynu - Cymru

Cynllun ecwiti a rennir yw Cymorth i Brynu Cymru, sy'n darparu cymorth i bobl a hoffai fod yn berchen ar eu cartref eu hunain ond sydd wedi'u cyfyngu rhag gwneud hynny. Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ers mis Ionawr 2014. Bydd y dyraniad o gyfalaf trafodion ariannol o £35 miliwn yn galluogi'r cynllun i barhau yn unol â'r bwriad drwy gydol 2020-21. Mae'r cynllun yn rhan bwysig o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn ystod y tymor y llywodraeth hon. Targed cam presennol y cynllun yw darparu 6,000 o gartrefi tuag at yr 20,000.

Adeiladu Drwy Ddull Modiwlwr

Mae adeiladu mwy o dai cymdeithasol a fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol o ran Ffyniant i Bawb a Symud Cymru Ymlaen; ac rydym yn falch o allu dyrannu cyfalaf trafodion ariannol gwerth £10 miliwn tuag at y flaenoriaeth hon yn 2020-21.

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i fabwysiadu Dulliau Adeiladu Modern (Modern Methods of Construction neu MMC) i wireddu'r manteision y gall adeilad modiwlwr eu cyflawni. Yn benodol, gall cartrefi mwy modiwlwr ddileu tlodi tanwydd i denantiaid, cael eu hadeiladu i safonau di-garbon/bron yn ddi-garbon a thrwy hynny beidio ag ychwanegu at yr her datgarboneiddio yn ogystal â darparu swyddi, hyfforddiant a phrentisiaethau gyda darparwyr adeiladau modiwlwr sy'n fusnesau bach a chanolig mewn rhannau o Gymru sydd wedi'u heffeithio gan ddirywiad diwydiannol.

Bydd galluogi adeiladwyr modiwlwr o Gymru sy'n fusnesau bach a chanolig i wella'r ffordd y maent yn rheoli eu llif arian yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy, yn gyflymach i safon uchel na dibynnu ar ddulliau adeiladu traddodiadol. Yn syml, y mwyaf o gartrefi newydd a gaiff eu hadeiladu, gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern ystyrllon gan fusnesau bach a chanolig brodorol Cymru, y llai o fuddsoddiad fydd ei angen yn y dyfodol i ôl-ffitio cartrefi wrth i dechnoleg fod ar gael i ddatgarboneiddio cartrefi o bob math o ddeiliadaeth yng Nghymru. Bydd pob cartref newydd a gaiff ei adeiladu drwy ddefnyddio dull modiwlwr nawr, yn atal ôl-ffitio drud ar gyfer datgarboneiddio yn y dyfodol.

Mae'r gronfa'n rhan o gamau lliniaru os bydd effaith andwyol ar yr economi ar ôl BREXIT. Bydd cefnogi busnesau bach a chanolig brodorol Cymru i fynd i'r afael â chyfyngiadau ariannol y model adeiladu tai modiwlwr yn allweddol ar gyfer creu gallu ychwanegol yn y system i adeiladu'n gyflym ac ar raddfa.

Bydd y gronfa yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr Dulliau Adeiladu Modern gydgrynhoi eu gallu gweithgynhyrchu, diogelu swyddi a chreu cyfleoedd gwaith newydd yn y cwmnïau hynny o ganlyniad uniongyrchol i gynnydd yn yr archebion am gartrefi cymdeithasol a adeiladwyd drwy ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern. Mae mwyafrif y busnesau bach a chanolig presennol sy'n defnyddio Dulliau Adeiladu Modern yn gwmnïau teuluol, yn gweithredu mewn ardaloedd lle y gall y farchnad swyddi fod yn anodd o ganlyniad i ddirywiad mewn diwydiannau traddodiadol. Mae cyflogi llafur lleol yn bennaf, cefnogi busnes drwy gynhyrchion llif arian yn amddiffyn ac yn hyrwyddo swyddi a hyfforddiant a phrentisiaethau mewn cymunedau difreintiedig.

Mae cynyddu capasiti adeiladwyr modiwlwr i adeiladu mwy o gartrefi mewn ffatri, yn hytrach nag ar safle adeiladu yn cael effaith fawr ar iechyd a diogelwch gweithwyr. Adeiladu yw'r pedwerydd diwydiant mwyaf peryglus yn y DU o ran anafiadau difrifol

a marwolaethau. Mae astudiaethau'n dangos bod damweiniau RIDDOR yn sgil gwneud adeilad modiwlwr yn 1 ddamwain mewn 4600 awr o'i gymharu ag 1 ddamwain mewn 1500 awr ar gyfer adeiladau a godir yn draddodiadol.

Y mwyaf o gartrefi a gaiff eu hadeiladu gyda Dulliau Adeiladu Modern, y rhwyddaf fydd y broses o gyrraedd targedau newid hinsawdd. Yn unol ag uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu, mae Dulliau Adeiladu Modern hefyd yn cynnig cyfle i gyflwyno ac integreiddio technolegau glanach ac atebion adeiladu cartrefi mwy effeithlon o ran ynni drwy ei ddull 'ffabrig yn gyntaf'. O ran yr economi gylchol, mae gwastraff o gynhyrchu cartrefi drwy weithgynhyrchu mewn ffatri yn cael ei leihau 70-90%, o'i gymharu ag adeiladu drwy ddulliau traddodiadol.

Mae adeiladu cartrefi gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern yn agor y diwydiant adeiladu i gronfa lafur arfaethedig ehangach. Mae gan ddarparwyr adeiladau modiwlwr cyfredol sy'n gweithredu yn y DU weithlu mwy amrywiol, gan fynd ati i recriwtio grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i'r hyn a ystyrir yn faes cyflogaeth adeiladu ar gyfer dynion yn bennaf yn draddodiadol. Mae hyn wedi arwain at fwy o fenywod yn ymgymryd â rolau o'r fath, o ran elfennau gorffen a sgiliau cynhyrchu tai a hefyd mewn rolau rheoli busnes fel goruchwylio a sicrhau ansawdd.

Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron - dyraniad cyfalaf trafodion ariannol o £2 filiwn

Rydym wedi dyrannu cyfalaf trafodion ariannol gwerth £2 filiwn i Ganolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron. Mae'r dyraniad yn cynnwys benthyciad o £2 filiwn dros 25 mlynedd ar log o 2% i gwblhau cyllido Cylch Caron, sef prosiect iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol strategol. Mae'r cynllun wedi derbyn cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig (ICF) (£1 filiwn) a grant iechyd o £0.727 miliwn gan Lywodraeth Cymru i brynu'r safle. Yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol, bydd y cynllun yn derbyn Grant Tai Cymdeithasol (£4.442 miliwn), cyfalaf y GIG (£2.115 miliwn), cyfraniad gan Gyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (£0.680 miliwn) a benthyciad masnachol gwerth £2.106 miliwn gan Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru. Mae'n ofynnol i'r benthyciad Cyllid Trafodion Ariannol (FTC) wneud iawn am gostau adeiladu uwch mewn ardal wledig eithriadol (gan ddilyn dwy weithdrefn OJEU) a lefelau rhent isel.

Mae'r datblygiad yn cynnwys Canolfan Iechyd newydd gyda phractis meddygon teulu, fferyllfa, clinigau cleifion allanol, nyrsio cymunedol a gofal cymdeithasol. Bydd yn darparu 34 uned gofal ychwanegol a chwe uned camu i fyny / camu i lawr ar gyfer gofal canolraddol ac adsefydlu.

Mae'r cynllun yn cyflawni nifer o ymrwymadau Ffyniant i Bawb: cynllunio ein penderfyniadau buddsoddi cyfalaf fel y gallant gael effaith fawr ar yr economi; helpu gwahanol sefydliadau i ddarparu eu gwasanaethau mewn un lle, a lleihau angen yr unigolyn i deithio; cydleoli gwasanaethau drwy integreiddio'r ffordd yr ydym yn gwneud ein penderfyniadau buddsoddi; sicrhau newid diriaethol yn narpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal i gymunedau, ac i ffwrdd o ysbytai; a chydlynu rhaglenni cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu llety arloesol, fforddiadwy, llety ac adeilad gofal nyrsio i arddull y Gronfa Gofal Integredig.

Mae'r cydweithrediad hwn rhwng partneriaid iechyd, gofal a thai yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy weithio mewn ffordd

integredig i atal problemau rhag codi neu waethygu ac ystyried anghenion tymor hwy.

Bydd y cynllun hefyd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio drwy ailgodi nifer o adeiladau hen ac aneffeithlon a lleihau'r angen i deithio.

Grant Tai Cymdeithasol

Gwnaed dyraniad ychwanegol o £48.1 miliwn i'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn 2020-21. Mae'r rhaglen yn gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn cynyddu i'r eithaf y nifer o gartrefi a gaiff eu hadeiladu gyda'r grant sydd ar gael.

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar angen tai yn dangos nad ydym yn darparu digon o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen sy'n bodoli yng Nghymru. Nod y buddsoddiad drwy'r Grant Tai Cymdeithasol yw lleihau lefel yr angen nas diwallwyd ac mae'n ysgogiad allweddol yn ein penderfyniadau buddsoddi.

Gall buddsoddi mewn datblygu tai cymdeithasol hefyd gefnogi pobl hŷn a'r rhai sydd â gofynion gofâl ychwanegol i osgoi dibyniaeth ar ofal preswyl neu ofal hirdymor a thrwy hynny leihau'r risg y bydd pobl yn ynysig neu'n unig. Mae tai fforddiadwy a gaiff eu hariannu gan grant yn cael eu hadeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru (DQR) sy'n cynnwys adeiladu i Safonau Cartrefi Gydol Oes. Mae cartrefi sydd wedi'u hadeiladu i'r safonau hyn yn haws ac yn rhatach i wneud addasiadau iddynt sy'n caniatáu i denantiaid aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn hytrach na mathau eraill o ddeiliadaeth oherwydd mai deiliaid tai cymdeithasol yw'r rhai mwyaf tebygol mewn cymdeithas o fod mewn tlodi ac o dan anfantais gymdeithasol. Gall tai gweddus a fforddiadwy wella iechyd corfforol a meddyliol pobl yn sylweddol, gan olygu eu bod yn fwy tebygol o allu cael mynediad at addysg a chyflogaeth. Er enghraifft, nid yw 25% o blant sy'n byw mewn tai gwael yn cael unrhyw gymwysterau TGAU o gymharu â thua 10% nad ydynt yn byw mewn tai gwael. Yn ogystal, mae plant sy'n byw mewn tai difrifol wael 20% yn fwy tebygol o fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai na phlant eraill. Felly mae buddsoddi mewn cartrefi o ansawdd da yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd y rhai sy'n byw ynddynt.

Ar gyfer pob grŵp oedran roedd y rhai a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod â salwch, anabledd neu wendid hirdymor cyfyngol na pherchen-ddeiliaid a'r rhai sy'n rhentu'n breifat. Yn ogystal, mae tystiolaeth yn dangos mai 58% o bobl o gefndir heb fod yn wyn sy'n byw mewn cartrefi perchen-feddianwyr o gymharu â 75% o bobl o gefndir ethnig gwyn. Mae 33% o bobl o grŵp ethnig nad yw'n wyn yn byw mewn llety rhent preifat o'i gymharu â 10% o bobl o grŵp ethnig gwyn. Mae cynyddu ein buddsoddiad mewn tai cymdeithasol yn caniatáu inni dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen ar draws pob grŵp ethnig yng Nghymru.

Rhaglen Tai Arloesol - dyraniad cyfalaf cyffredinol o £25 miliwn

Mae datgarboneiddio'r stoc dai yng Nghymru yn flaenoriaeth i'r Prif Weinidog, ac rydym yn falch o allu dyrannu cyfalaf cyffredinol ychwanegol o £25 miliwn i'r flaenoriaeth hon yn 2020-21.

Yn fy ymateb i'r adolygiad Tai Fforddiadwy ar 9 Gorffennaf 2019, dywedais yn glir fy mod yn disgwyl i dai fforddiadwy arwain y ffordd o ran deiliadaeth tai i adeiladu cartrefi newydd sy'n ddi-garbon ac yn datgarboneiddio'r stoc dai bresennol. Ein huchelgais yw y dylai pob cartref a gaiff ei adeiladu, boed wedi'i ariannu'n gyhoeddus neu'n breifat yng Nghymru gael ei adeiladu i'r safon ddi-garbon hon. Yn ogystal, rwyf wedi ymateb i argymhellion yr adolygiad ar ddatgarboneiddio'r stoc tai fforddiadwy bresennol, drwy gytuno i ymchwilio i a ellir cyllido rhaglen waith ôl-ffitio sylweddol, a phrofi'r hyn sy'n bosibl nawr ac yn y dyfodol i wneud i hyn ddigwydd.

Nod y prosiect hwn yw datblygu ac ymestyn y Rhaglen Tai Arloesol (rhaglen tair blynedd gwerth £90 miliwn) i'r bedwaredd flwyddyn er mwyn sicrhau'r enillion mwyaf ar fuddsoddiad y gallwn ei gael o'r cylchoedd cyllido blaenorol. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r rhaglen yn awgrymu bod defnyddio dulliau modiwlwr a dulliau modern eraill o adeiladu cartrefi yn ddulliau effeithiol iawn o ddarparu cartrefi sydd bron yn ddi-garbon.

Nod yr arian ychwanegol hwn o £25 miliwn fydd adeiladu ar y themâu a gyflwynwyd yn nhrydedd flwyddyn y rhaglen ac yn gwthio ffiniau arloesedd yn y themâu allweddol o newid i ôl-ffitio, cael gwared ar ddulliau gwresogi nwy a digartrefedd yn raddol.

Yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd di-garbon, mae angen deall ar fyrder sut y gellir ôl-ffitio'r technolegau a'r dulliau sy'n cael eu profi yn y Rhaglen Tai Arloesol gyfredol mewn cartrefi fforddiadwy sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn allweddol gan fod tuag 80% o allyriadau carbon cartrefi yng Nghymru yn dod o'r stoc dai bresennol. Ar ben hynny, yng Nghymru y mae'r stoc dai hynaf a mwyaf heriol yn y DU o ran cyflawni'r rhaglen ddi-garbon, gyda 45% wedi eu hadeiladu cyn 1950.

Y llynedd, cydnabu'r Grŵp Llywio Annibynnol, a oedd yn edrych ar y mater hwn faint yr her hon. Nododd y grŵp bwysigrwydd ymchwilio i dechnolegau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn benodol ar gyfer adeiladu cartrefi newydd i fynd i'r afael â'r materion llawer mwy cymhleth sy'n ymwneud â gwella perfformiad carbon cartrefi presennol.

Mae dwy o'r tair thema wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â datgarboneiddio cartrefi newydd a stoc tai presennol. Mae cynyddu nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu cynhyrchu gyda dull modiwlwr yn gwneud cartrefi yn rhai carbon isel neu'n ddi-garbon. Bydd cyfran uchel o gartrefi'r dyfodol yn cael eu hadeiladu mewn dull modiwlwr.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith ar gyfer sut y gall ymgeiswyr ddangos nid yn unig yr arloesedd y maent yn bwriadu ei ddarparu, ond sut mae eu cynllun yn cyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â'r saith nod sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio; gyda chynlluniau yn ceisio defnyddio cyfleoedd i ddarparu swyddi, sgiliau a datblygu diwydiant lleol. Rydym hefyd yn cynnig gwneud cysylltiadau ehangach ag agenda ehangach yr economi gylchol. Disgwylwn wneud mwy o ddefnydd o bren wrth eu hadeiladu, a phren yw'r unig ddeunydd adeiladu cynaliadwy, carbon-niwtral yn yr 21ain Ganrif.

Adfywio Canol Trefi

Rydym yn parhau i gefnogi canol ein trefi gyda chyllid o £36 miliwn yn 2020-21 ar gyfer prosiectau sydd wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol o dan y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio sy'n hyrwyddo adfywio economaidd a llesiant ein trefi a'n cymunedau. Ategir hyn gan y dyraniadau ychwanegol a ganlyn:

Benthyciadau Canol Trefi

Mae gwneud y defnydd gorau posibl o eiddo a chyfleoedd datblygu presennol yng nghanol trefi Cymru yn sylfaenol i fynd i'r afael â'r dirywiad a'r gwaethygiad sydd wedi digwydd ac sy'n parhau i ddigwydd. Yng ngoleuni hyn, rydym wedi dyrannu cyfalaf trafodion ariannol o £10 miliwn i alluogi'r cynllun Benthyciadau Canol Trefi i gael ei ymestyn. Gellir defnyddio eiddo gwag ac eiddo sy'n cael ei danddefnyddio fel llety i bobl a darparu anghenion busnes wrth ryddhau safleoedd datblygu, gan ddod â budd economaidd drwy'r diwydiant adeiladu, yn ogystal â swyddi, sgiliau a thwf a chynigion tai cynyddol i'r ardaloedd.

Mae gostyngiadau parhaus mewn gwariant cyhoeddus ynghyd â rhagolygon economaidd ansicr yn parhau i gael effeithiau pwysig ar gost ac argaeledd eiddo addas yng nghanol trefi ar gyfer busnesau a llety i bobl fyw ynddo. Mae mynediad cyfyngedig at gyllid i berchnogion a deiliaid adeiladau wedi arwain at ostyngiad mawr mewn gwariant ar ryddhau safleoedd canol trefi er mwyn datblygu, adnewyddu neu ailwampio adeiladau.

Mae'r cynllun benthyciadau yn galluogi darparu cyllid benthyciad tymor byr i dymor canolig i berchnogion a datblygwyr eiddo is-safonol sydd â lleoedd gwag neu hanner llawn, fel y gallant gael eu defnyddio eto ar gyfer y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Gall prosiectau hefyd ddarparu gwell effeithlonrwydd ynni, lleihau costau ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon. Disgwylir i'r benthyciadau hefyd ysgogi buddsoddiad o'r sector preifat.

Mae'r cynllun benthyciadau eisoes yn cefnogi 32 o drefi ledled Cymru, gyda 15 ALI yn gweithredu fel y cyfryngwr i ddarparu cyllid y benthyciad i drydydd partïon sy'n cyflawni'r cynllun yn weithredol. Mae'r manteision cydnabyddedig yn cynnwys cefnogi'r broses o greu swyddi a thwf economaidd drwy ddarparu gofod busnes modern a chaniatáu i fusnesau lleol a newydd dyfu a datblygu yng nghanol ein trefi. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn caniatáu i'r cynllun i gael ei ymestyn i drefi ac awdurdodau ychwanegol.

Rhaglen Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Canol Trefi - dyraniad cyfalaf cyffredinol o £5 miliwn yn 2020-21

Mae cyfalaf cyffredinol o £5 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2020-21 i Raglen Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth Canol Trefi. Mae'r rhaglen yn cefnogi gweithredu cynlluniau Amgylcheddol ac yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gyflwyno Seilwaith Gwyrdd yn gynaliadwy i ganol trefi mewn ffyrdd sy'n sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol i gymunedau lleol.

Mae seilwaith gwyrdd trefol yn cefnogi ymrwymiad y Prif Weinidog yn uniongyrchol i 'ganolbwyntio ar bethau bach a all greu mannau gwyrdd lleol, hygyrch'. Mae

seilwaith gwyrdd trefol yn cynnwys llawer o gamau bach i ffurfio rhwydwaith amlswyddogaethol:

- ein holl fannau agored a'n rhwydwaith o gynefinoedd, parciau, caeau chwarae, rhandiroedd, gerddi preifat, pyllau, afonydd, camlesi, coetir, coed stryd a gardd, a gwrychoedd.
- mae'n cynnwys yr holl fannau gwyrdd oherwydd gall ardaloedd trefol gynnwys cryn dipyn o gynefinoedd lled-naturiol.
- gellir eu trin i ffurfio toeau a waliau gwyrdd, draenio cynaliadwy neu fel coed stryd.
- gall fod yn rhan o'n cysylltiadau trafniadaeth, er enghraifft, pan gaiff blodau gwyllt eu plannu mewn ymylon glaswellt ar hyd ein rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd ac ar gylchfannau ac ar ben llochesi bysiau i annog natur. Gall fod yn rhan allweddol o'n rhwydweithiau teithio egnïol.
- yn cynnwys y cysylltiadau rhwng ein hardaloedd trefol a'r hyn sydd o'u cwmpas fel eu bod yn 'uno'.

Byddwn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ymgorffori ym mhob elfen fel bod pob prosiect yn helpu i adeiladu rhwydweithiau ecolegol cydnerth.

Mae plannu seilwaith gwyrdd yn broses sydd wedi profi ei bod yn dal a storio carbon amgylcheddol. Gall plannu ar adeiladau canol trefi er enghraifft helpu i gadw dŵr, darparu cysgod a lleihau'r angen i oeri gwres. Fy mwriad yw y dylai'r rhaglen weithredu fel prosiect arddangos ar gyfer seilwaith gwyrdd yng nghanol trefi ac felly bydd y canlyniadau'n cael eu monitro i sicrhau bod effaith barhaol y gellir ei hefelychu mewn rhaglenni adfywio canol trefi yn y dyfodol.

Byddwn yn sicrhau y bydd gwelliannau i'r seilwaith yn cael eu cyflawni yn unol ag arfer gorau'r diwydiant, megis Cod y Sefydliad To Gwyrdd (GRO) ar gyfer toeon gwyrdd. Rhaid i sicrhau bod pob prosiect yn wirioneddol gynaliadwy fod yn nod inni, yn ogystal â sicrhau manteision cyhoeddus ehangach. Bydd yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer y gwaith hwn yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd. Profwyd bod seilwaith gwyrdd yn helpu i oeri canol trefi a dinasoedd, yn cyfrannu'n sylweddol at les preswylwyr ac ymwelwyr ac yn helpu i feithrin ymdeimlad o le. Rydym hefyd yn cynnig y dylid cefnogi plannu sy'n gysylltiedig â Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) i helpu i liniaru effeithiau llifogydd wyneb sy'n gysylltiedig â llifogydd. Cyflawnir gwelliannau mewn cydweithrediad ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymunedau lleol, grwpiau buddiant lleol a phartneriaid yn y sector preifat.

Mae gweithredu Seilwaith Gwyrdd yn amgylchedd trefol canol ein trefi yn helpu'n benodol i ddarparu 'ymdeimlad o le' gydag ymyriadau penodol wedi'u targedu. Er enghraifft, bydd to gwyrdd yn benodol i adeilad o fath a dyluniad arbennig. Mae gweithredu cynlluniau gwyrddu yn cael effaith sylweddol wrth helpu i adfer balchder dinesig yn ein cymunedau.

Cydraddoldeb

Rhoddyd gwaelodlin y cyllidebau refeniw ar draws y portffolio Cydraddoldeb yng nghyllideb atodol gyntaf 2019-20. Er mwyn adeiladu ar y llinell sylfaen hon, derbyniodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddyraniadau penodol gwerth cyfanswm o £1.86 miliwn yn 2020-21 o'r Gronfa Bontio Ewropeaidd i ariannu camau penodol o ganlyniad i baratoadau'r DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Derbyniodd

y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gynnydd cyffredinol o £1.5 miliwn i'w gymhwyso ar draws ei phortffolio. Targedwyd hyn fel a ganlyn:

- £0.09 miliwn ar gyfer y Glasbrintiau cyfiawnder ieuenctid a throsteddu menywod
- £0.39 miliwn ar gyfer y Cynllun Braenaru i Fenywod
- £0.14 miliwn ar gyfer camau nesaf yr Adolygiad Cyflym ar Gydraddoldeb Rhywiol
- £0.05 miliwn am gyngor cyfreithiol i geiswyr lloches anghenus
- £0.05 miliwn ar gyfer y gwaith gweithredu cychwynnol ar gyfer y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol
- £0.07 miliwn ar gyfer ymchwil mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru
- £0.04 miliwn ar gyfer nodi Diwrnod Windrush 2020
- £0.25 miliwn ar gyfer cyllid ychwanegol drwy'r Grant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- £0.05 miliwn ar gyfer hyfforddiant LHDT ledled Cymru
- £0.25 miliwn ar gyfer cefnogaeth ychwanegol i sefydliadau cydraddoldeb
- £0.12 miliwn ar gyfer cefnogaeth ychwanegol mewn perthynas â datblygu polisi hil ac ymgysylltu â sefydliadau hil

Mae hyn yn cydnabod y rhan bwysig y mae cydraddoldeb yn ei chwarae wrth gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth a'r nodau llesiant cenedlaethol.

Cyhoeddwyd cyllidebau Cyfalaf Dangosol ar gyfer 2020-21 fel rhan o gyllideb ddrafft 2019-20. I adeiladu ar y waelodlin hon, derbyniwyd dau ddyraniad cyfalaf penodol gwerth cyfanswm o £2.2 miliwn.

Cyllid Pontio Ewropeaidd

Gwnaed y dyraniadau canlynol yn 2020-21 o'r Gronfa Bontio Ewropeaidd, mae'r rhain yn adeiladu ar ddyraniadau a wnaed ym mlwyddyn ariannol 2019-20:

- £0.76 miliwn i'r prosiect Cryfhau Cydlyniant Cymunedol;
- £0.6 miliwn i Fynd i'r Afael â Throsteddu Casineb a Gweithredu Cydlyniant Cymunedol; a
- £0.5 miliwn i brosiect Hawliau Dinasyddion yr UE

Diben y prosiectau hyn yw ymgorffori'r pum ffordd o weithio, gyda phwyslais cryf ar gyfranogiad grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a darparu ymyriadau sy'n ceisio atal effeithiau niweidiol a hyrwyddo integreiddio.

Mae'r rhaglen **Cryfhau Cydlyniant Cymunedol** estynedig yn cefnogi awdurdodau lleol i weithio'n agosach gydag aelodau'r gymuned, drwy ddarparu dau swyddog cydlyniant cyfwerth ag amser llawn ym mhob rhanbarth yng Nghymru. Mae hyn yn ategu gwaith y Cydlynwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol presennol i gynnwys y rhai y mae materion cydlyniant yn effeithio arnynt, annog cydweithredu â gwasanaethau allweddol yn yr ardal leol ac annog integreiddio gwasanaethau i sicrhau cymunedau mwy cydlynol. Mae'r dull hwn yn ceisio atal canlyniadau niweidiol fel gwahanu, allgau cymdeithasol a throsteddau casineb.

Diben y prosiectau **Mynd i'r Afael â Throsteddau Casineb a Chydlyniant Cymunedol** yw cynnwys cymunedau lleiafrifoedd ethnig a ffydd leiafrifol sydd mewn perygl o ddioddef trosteddau casineb. Cyflawnwyd hyn drwy ariannu wyth sefydliad

sy'n cefnogi'r cymunedau hyn drwy'r Grant Troseddau Casineb Cymunedau Lleiafrifoedd a chynnwys dioddefwyr troseddau casineb wrth ddylunio ein hymgyrch cyfathrebu troseddau casineb. Mae'r prosiect hefyd yn ehangu capasiti'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth i sicrhau bod pawb sy'n dioddef troseddau casineb yn derbyn cefnogaeth un i un gan Gymorth i Ddioddefwyr Cymru. Dyluniwyd pob agwedd ar y prosiect hwn i weithio ar y cyd â'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi dioddefwyr neu ddiodesfwyr posibl troseddau casineb, i atal effeithiau niweidiol hirdymor.

Mae'r **Prosiect Hawliau Dinasyddion yr UE** yn cynnwys cydweithredu rhwng sefydliadau; Cyngor ar Bopeth Cymru (arbenigwyr ym maes darparu cyngor), Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (sydd ag arbenigedd mewn ymgymryd ag allgymorth i gefnogi cymunedau lleiafrifol yng Nghymru) a Settled (grŵp gwirfoddol sy'n gwirfoddoli ar lawr gwlad o'r grŵp eiriolaeth 3 miliwn o ddinasyddion yr UE). Mae'r prosiect yn ceisio sicrhau bod Dinasyddion yr UE yn cael mynediad at gyngor da i'w cefnogi i wneud cais am Statws Preswlydd Sefydlog, i herio anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau, ac amddiffyn rhag camfanteisio yn y gweithle. Nod y cyngor hwn yw cefnogi ein cymunedau yn yr hirdymor drwy sicrhau y gall dinasyddion yr UE aros a ffynnu fel aelodau o gymdeithas Cymru. Mae gwariant y prosiectau hyn yn cefnogi Nodau Llesiant Cymru mwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Mae egwyddor camau ataliol yn sylfaenol i'r gwaith a wneir drwy'r prosiectau hyn, gyda gwaith "i fyny'r gadwyn" y Cydlynwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol (Rhaglen Cryfhau Cydlyniant Cymunedol) yn lleihau tensiynau lleol, meithrin parch a dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau ac adeiladu cymunedau cydlynol, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd problemau mwy difrifol fel eithafiaeth, troseddau casineb a therfysgaeth yn digwydd "i lawr y gadwyn" (Mynd i'r Afael â Throsedd Casineb a Chydlyniant Cymunedol). Mae llawer o randdeiliaid gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector wedi cydnabod a chrosawu cyfraniad gwerthfawr eu Cydlynwyr Cydlyniant lleol yn y ffyrdd hyn.

Nod y gefnogaeth i Brosiect Hawliau Dinasyddion yr UE yw ceisio sicrhau bod yr aelodau hyn o'n cymuned yn deall pa gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i reoleiddio eu statws ac atal sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol fel digartrefedd, diweithdra neu alltudio dros amser.

Mae'r prosiectau hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru roi camau ychwanegol ar waith yng nghyd-destun ymadael â'r UE i wneud popeth posibl i fonitro a lleihau tensiynau cymunedol, meithrin cydlyniant cymunedol, ac atal datblygu anhrefn difrifol. Bydd gan dimau rhanbarthol mwy o faint fwy o gapasiti i ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol ar y materion hyn.

Cynnydd i gyllidebau Cydraddoldeb

Yn ogystal â chynnal cyllidebau refeniw ar lefelau 2019-20, rydym yn falch o weld cynnydd ychwanegol o £0.77 miliwn yn y gyllideb Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Dyrennir y gyllideb ychwanegol hon i gefnogi'r gweithgareddau canlynol.

Adolygiad o gydraddoldeb rhywiol

Dechreuodd yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ym mis Mawrth 2018 gydag adolygiad cyflym yn arwain at adroddiad Cam 1 a oedd yn cynnwys 31 o argymhellion. Daeth Cam 2 i ben ym mis Gorffennaf 2019 yn sgil cyflwyno'r

adroddiad 'Gwneud nid Dweud' a chynllun yn canolbwyntio ar feysydd polisi penodol gydag 81 o argymhellion a gymeradwywyd gan y Cabinet. Bydd y cyllid yn cefnogi'r cam nesaf o waith sy'n canolbwyntio ar weithredu.

Cyngor cyfreithiol i geiswyr lloches anghenus

Bydd y cyllid hwn yn diogelu'r gefnogaeth a ddarperir i bobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru. Mae cyngor cyfreithiol wedi'i ariannu yn hanfodol bwysig oherwydd ei natur arbenigol a natur gymhleth gwneud cais am loches.

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Bydd yr arian hwn yn cefnogi gwaith i gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, yn unol â maniffesto'r Prif Weinidog. Bydd y gweithgaredd hwn yn galluogi gwaith gweithredu cychwynol sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddyletswydd.

Ymchwil cydraddoldeb a hawliau dynol

Comisiynu ymchwil ar yr opsiynau ehangach i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a fydd, ymysg pethau eraill, yn ystyried y posibilrwydd o ymgorffori confensiynau'r Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru ac a allai fod angen deddfwriaeth newydd, megis Bil Hawliau Dynol i Gymru. Disgwylir i'r ymchwil hon adrodd yn ôl erbyn diwedd 2020.

Nodi Diwrnod Windrush 2020

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i sefydliadau ledled Cymru i nodi Diwrnod Windrush 2019. Bydd y gefnogaeth hon yn parhau drwy gynllun grant Diwrnod Windrush 2020 a gaiff ei lansio yn gynnar yn 2020 ar gyfer Diwrnod Windrush a gaiff ei ddathlu ym mis Mehefin bob blwyddyn.

Hyfforddiant LHDT ledled Cymru

Bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu pecyn hyfforddi i'w ddarparu ledled Cymru yn unol â maniffesto'r Prif Weinidog

Cefnogaeth ychwanegol i sefydliadau cydraddoldeb

Bydd y cyllid hwn yn ategu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni o dan y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Bydd yn canolbwyntio ar waith blaenoriaeth penodol ym mhob maes ac yn cefnogi'r broses o gyflawni gweithredoedd o dan Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-2024.

Cefnogaeth ychwanegol mewn perthynas â pholisi hil

Bydd y cyllid hwn yn helpu i gefnogi datblygiad pellach ac ymgysylltiad â sefydliadau hil ledled Cymru.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Yn ogystal â'r uchod, mae £0.2 miliwn arall yn cael ei ddyrannu i ddatblygu cynllun gwobrau anabledd Cymru ar gyfer cyflogwyr a fydd yn adeiladu ar y cynllun Hyderus o ran Anabledd i annog cyflogwyr i anelu at fod yn fwy cefnogol i bobl anabl.

Bydd y cynllun yn gweithio gyda sefydliadau anabledd a gwirfoddol i archwilio anghenion penodol Cymru wrth ddatblygu'r cynllun, gan wneud y mwyaf o ysgogiadau presennol i annog cyflogwyr i weithredu drwy'r Contract Economaidd.

Mae cyllid yn galluogi amcanion i gael eu cyflawni sy'n anelu at:

- gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb; a

- gweithio gyda phobl o'r grwpiau gwarchoddedig.

Nod y broses gyflawni felly yw hyrwyddo cyfle cyfartal. Yr amcanion penodol sy'n bwrw ymlaen â hyn yw amcan 1 (sy'n cynnwys grwpiau gwarchoddedig yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau a rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl anabl dros eu bywydau), amcan 2 (drwy gyngor hygyrch), amcan 3 (mynd i'r afael â ffactorau sy'n ymwneud â chyflogaeth, sgiliau ac anghydraddoldeb o ran tâl drwy fynd i'r afael â'r achosion a hyrwyddo cyfle cyfartal), amcan 5 (cefnogi grwpiau gwarchoddedig i gael yr un cyfle i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus) ac amcan 7 (mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchoddedig).

Bydd y cynigion cyllido newydd yn adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud dros y tair blynedd diwethaf ac yn ein helpu i barhau i brif ffrydio cydraddoldeb ar draws ein holl waith a mynd i'r afael â'r meysydd anghydraddoldeb sydd bwysicaf i bobl Cymru.

Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig

Yn ogystal â chynnal cyllidebau refeniw a chyfalaf ar lefelau 2019-20, rydym yn falch o weld £250,000 ychwanegol o refeniw a £1.2 miliwn o arian cyfalaf yn cael ei ddyrannu i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gyhoeddus i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fenywod, ac mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ers cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Wrth i'r DU gyflwyno ei Bil Cam-drin Domestig, roedd yn edrych ar Gymru er mwyn dysgu gwersi, ac mae ein Cynghorwyr Cenedlaethol wedi darparu tystiolaeth i'r Cydbwyllgor Seneddol sy'n craffu ar y Bil.

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hadroddiad ar y cynnydd o ran gweithredu'r Bil ar 21 Tachwedd 2019. Dangosodd hyn, er bod y Ddeddf yn ysgogi gwelliannau, bod y gwasanaethau'n parhau i fod yn anghyson, yn gymhleth ac yn wasanaethau tymor byr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu dull gweithredu ataliol a hirdymor sydd wedi'i arwain gan anghenion. Bydd y £250,000 ychwanegol yn caniatáu i waith na chafodd ei ariannu'n flaenorol gael ei ddatblygu er mwyn cyflymu'r broses o gyflawni blaenoriaethau allweddol fel y nodir yn Strategaeth Genedlaethol 2016-2021.

Llety diogel gwasgaredig i deuluoedd sy'n ffoi rhag cam-drin domestig

Y dyraniad cyfalaf ychwanegol o £1.2 miliwn a fydd yn cefnogi darparwyr trydydd sector i brynu unedau gwasgaredig yn y gymuned gyda hyblygrwydd i ddiwallu anghenion teuluoedd nad oes modd eu diwallu gan lochesi, neu i alluogi pobl i symud ymlaen o lochesi. Mae menywod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan gam-drin domestig na dynion ac yn fwy tebygol o ffoi o'u cartrefi. Gan mai menywod yn bennaf sy'n darparu gofal mewn cymdeithas maent yn fwy tebygol o ffoi gyda phlant. Yn ogystal, gall fod angen llety hefyd ar ddynion sy'n dianc rhag cam-drin domestig, yn enwedig gan eu bod

yn llai tebygol o geisio neu dderbyn llety lloches ac efallai'n teimlo'n fwy diogel mewn unedau gwasgaredig.

Bydd y cynllun yn cyflawni nifer o'r amcanion llesiant, yn benodol, "nod unedig a chysylltiedig" drwy wella, yn y tymor byr, botensial cyflogaeth ac enillion pennaeth yr aelwyd a gaiff gefnogaeth mewn llety gwasgaredig, ac yn y dyfodol, botensial hirdymor plant yr aelwyd honno o dan nod "uchelgeisiol ac yn dysgu". Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at y nod o "Gymru fwy cydnerth" drwy gefnogi teuluoedd i ffoi rhag trais a'u cadw gyda'i gilydd, caiff cydnerthedd ei ddatblygu a diogelir eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Bydd "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Chymru o gymunedau cydlynus" hefyd yn cael eu bodloni drwy ganiatáu i deuluoedd chwarae rhan lawn yn eu cymunedau newydd, yn hytrach na chael eu cyfyngu gan ofn a thrais yn eu cartrefi presennol a thrwy ddarparu gwasanaethau i wella eu diogelwch fel canllawiau ar gynnal tenantiaeth.

Cronfa Fenthyciad Asedau Cymunedol

Gwnaed dyraniad cyfalaf trafodion ariannol o £1 filiwn yn 2020-21 i Gronfa Fenthyciad Asedau Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Nod y gronfa yw rhoi benthyciadau o hyd at £500,000 i grwpiau cymunedol sy'n derbyn asedau cymunedol i brynu a / neu wella'r asedau hyn er budd y gymuned leol.

Bydd y Gronfa Fenthyciadau yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad Ffyniant i Bawb i helpu cymunedau lleol i berchnogi asedau cymunedol sy'n dod â phobl ynghyd. Bydd y gronfa'n darparu opsiwn arall ar gyfer cymunedau lle mae risg y gallent gollu asedau gwerthfawr. Bydd yn gwneud hyn drwy gynnig cyllid benthyciad i'r grwpiau cymunedol hynny sy'n ddigon aeddfed i symud oddi wrth gyllid grant, ond nad ydynt eto mewn sefyllfa i fenthycia gan fenthycwyr masnachol.

Bydd y gronfa'n cyfrannu at rymuso, cydnerthedd, llesiant a chydlyniant cymunedau. Bydd yn helpu i atal colli gwasanaethau lle y gall grwpiau cymunedol ymgymryd â rhedeg adeiladau cymunedol mawr eu hangen, gyda chymorth y gronfa.

Mae'r trydydd sector wedi hen arfer gweithio mewn ffordd gydwethredol ac integredig. Rhaid i grwpiau cymunedol sy'n ymgymryd â rhedeg adeiladau cymunedol weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion cynaliadwy ar gyfer gweithredu'r adeilad. Gall hyn gynnwys grwpiau cymunedol eraill a all rannu, rhentu neu ddefnyddio'r gofod ac awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill a all ddarparu gwasanaethau o'r lleoliadau. Mae'r dull hwn yn amddiffyn gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr yn y tymor hwy, gan ddefnyddio model cyflawni amgen sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol arbed arian ac i'r gymuned amddiffyn a datblygu ased pwysig a gwasanaeth hanfodol.

Mae trosglwyddo asedau i'r gymuned yn grymuso'r gymuned honno drwy ennyn diddordeb pobl mewn gwneud penderfyniadau lleol, gan ofyn am eu barn ar ddatblygiad yr ased. Gall perchnogaeth gymunedol ar adeiladau gwerthfawr a ddefnyddir yn helaeth roi ffocws ar gyfer cydlyniant ac adeiladu cydnerthedd cymunedol. Bydd y gwasanaethau a gynigir yn darparu cyfleoedd i aelodau unigol o'r gymuned i ddysgu, cymdeithasu, gwirfoddoli a gweithio.

Mae adeiladau sy'n eiddo i'r gymuned yn darparu gwasanaethau a all atal problemau rhag codi. Mae'r cyfleoedd i gymdeithasu a gwirfoddoli yn helpu i atal unigrwydd ac

arwahanrwydd. Mae amddiffyn mynediad lleol i wasanaethau fel llyfrgelloedd, cyfleoedd hyfforddi a gwasanaethau iechyd lleol yn helpu i feithrin cydnerthedd. Mae adeiladau cymunedol yn lleoedd lle y gall pobl ganfod cymorth a chefnogaeth yn amrywio o fanc bwyd, cyngor ar ddyledion a budd-daliadau neu ddsbarth ymarfer corff neu grŵp colli pwysau. Yn aml gall y gweithgareddau hyn atal problemau rhag datblygu neu waethygu. Mae hyn yn helpu i osgoi'r angen am ymyriadau mwy aciwt.

Bydd y Gronfa Fenthyciadau yn helpu grwpiau cymunedol i wella'r adeiladau hyn, ac mae gan lawer ohonynt, yn enwedig y rhai a allai fod wedi bod ym mherchnogaeth y sector cyhoeddus, ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Gallai'r gwelliannau hyn gynnwys gwell inswleiddio, gwresogi mwy effeithlon, technoleg newydd fel paneli solar, gwydr triphlyg, systemau cynaeafu dŵr glaw. Mae'r gwelliannau hyn yn cynorthwyo'r agenda datgarboneiddio ac yn darparu adeiladau cymunedol sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol ar gyfer yr hirdymor.

Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwr Benywaidd

Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu cynigion ar sut y byddai system gyfiawnder benodol a gwahanol yn gweithredu yng Nghymru. Datblygwyd y glasbrint Troseddwr Benywaidd ar y cyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar ymyrraeth ac atal cynnar; gan ystyried sut y gallwn ddargyfeirio pobl ymhellach oddi wrth droseddu yn y lle cyntaf, ond lle mae'n rhaid inni weithio gyda throseddwr, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd gyfannol ac adferol. Datblygwyd glasbrint ar wahân ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd rhwng swyddogion a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, gan adeiladu ar themâu allweddol Adolygiad Charlie Taylor o System Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, ond gan ganolbwyntio ar y system fel y mae yng Nghymru. Mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a'r Swyddfa Gartref hefyd yn bartneriaid allweddol yn y gwaith hwn.

Mae'r ddau lasbrint yn fwriadol uchelgeisiol ac yn nodi nifer o argymhellion, a bydd llawer ohonynt yn cael effaith ar wasanaethau datganoledig o fewn portffolios gweinidogol amrywiol (iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai). Y bwriad yw y bydd yr argymhellion a nodir yn y glasbrintiau yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau presennol o fewn portffolios priodol er mwyn darparu polisi cyfiawnder cydlynol a chydweithredol sy'n diwallu anghenion Cymru. Ar y cam hwn o'r datblygiad, nid yw'r gyllideb na'r cyllid sy'n ofynnol i weithredu dyheadau'r ddau lasbrint yn gwbl hysbys ond bydd elfennau'n cael eu nodi yng nghyllidebau portffolio priodol iechyd, tai ac ati. Mae gwaith ar y gweill i nodi methodolegau posibl ar gyfer cyflawni Cynlluniau Gweithredu'r ddau lasbrint. Cyflawnir hyn drwy weithio ar draws portffolios o fewn Llywodraeth Cymru, a hefyd ar lefel drawsadrannol gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r ddau lasbrint yn cyfrannu at y blaenoriaethau trawsbynciol yn y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau'r achosion o droseddu ac i ddargyfeirio pobl rhag ymuno â'r system cyfiawnder troseddol, a thrwy hynny leihau'r risg o droseddu ar gymunedau, unigolion a'u teuluoedd. Drwy sicrhau bod y dull system gyfan sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys y lefelau priodol o gefnogaeth cofleidiol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a chymorth iechyd meddwl i'r rhai sydd wedi profi trawma a allai arwain at droseddu, rydym hefyd yn gallu cefnogi'r flaenoriaeth lach ac Egniol. Ymdrinnir â'r flaenoriaeth Uchelgeisiol ac yn Dysgu hefyd drwy ddarparu lefelau priodol o addysg a dysgu i'r rheini yn y system addysg ym mhob lleoliad (gan gynnwys lleoliadau nad ydynt yn brif ffrwd) i

leihau achosion o wahardd o'r ysgol a allai adael pobl ifanc yn agored i niwed ac mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

Rhoddir sylw hefyd i'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae gan y glasbrintiau ffocws tymor hir drwy dorri cylchoedd troseddau rhwng cenedlaethau, gan greu cymdeithas decach gyda chanlyniadau mwy cyfartal i bawb. Mae diogelu menywod a phlant, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol sy'n sail i ymddygiad troseddol yn ataliol ei natur gyda dull cydweithredol wedi'i wreiddio i ddarparu gwasanaethau trawsnewidiol. Rydym wedi gweithio'n galed i ddeall y cysylltiadau ar draws meysydd polisi a sut y gall y dull hwn wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau ac rydym wedi datblygu ein dull o ddarparu gwasanaethau effeithiol drwy gynnwys y rhai yr effeithir arnynt (dioddefwyr, menywod, plant a chymunedau).

Cynllun Braenaru Merched - Cynnig Busnes Dull System Gyfan 2018-2022

Mae Cymru wedi bod yn un o'r prif feysydd arfer da o ran gweithio gyda menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol, ac un o brif ysgogwyr y gwaith hwn oedd y Rhaglen Braenaru Merched sy'n nodwedd allweddol o'r Glasbrint Troseddwyr Benywaidd. Nod y rhaglen fu dylunio a darparu dull aml-asiantaeth integredig, penodol i fenywod o weithio gyda menywod a ddaw i gysylltiad â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru drwy ddarparu dull aml-asiantaeth integredig, penodol i fenywod - Dull System Gyfan. Mae'r angen am ddull o'r fath wedi'i gofnodi a'i gefnogi'n dda mewn egwyddor ers Adroddiad Corston (<https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20180207155341/http://www.justice.gov.uk/publications/docs/corston-report-march-2007.pdf>) yn 2007.

Yn wreiddiol, cafodd Braenaru Merched gymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer £370,205 dros dair blynedd (19-20, 20-21 a 21-22).

Mae achos busnes ar gyfer rhaglen 'Visiting Mum's' sy'n gysylltiedig ag argymhelliad penodol sydd wedi'i gynnwys yn y Glasbrint Troseddwyr Benywaidd (Sefydlu gwasanaethau i fenywod o Gymru sydd yn y ddalfa i wella a chynnal cysylltiadau â phlant a theuluoedd) ac ar gost fras o £ 176,000 y flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cyfraniad o 50%. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft a bydd yn destun datblygiad pellach fel rhan o raglen waith ehangach y Glasbrint.

Trechu Tlodi

Thema drawsbynciol tlodi

Roedd y gwaith a gafodd ei arwain gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn nodi nifer o feysydd polisi gyda'r nod o leihau tlodi ar draws portffolios Llywodraeth Cymru y gellid, o bosibl, eu hystyng. Yn ogystal â'r gweithgareddau presennol, ystyriodd y gwaith hefyd fentrau amgen ac a ellid mabwysiadu'r rhain ai peidio.

Cafodd yr holl opsiynau eu cofnodi a'u cynnwys yn y broses gosod cyllideb, ynghyd â'r darnau gwaith trawsbynciol eraill a nodwyd fel blaenoriaethau ar gyfer cyllideb 2020-21. Yr hyn oedd yn allweddol wrth benderfynu pa un o'r mesurau trechu tlodi a fyddai'n cael ei ariannu oedd y dystiolaeth a oedd yn cefnogi effeithiolrwydd y mesurau a nodwyd.

Mae'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys:

Cynnig Buddsoddi	Maes Trawsbynciol	Dyraniad	Disgrifiad
Tlodi Misglwyf	Tlodi	£0.22m (MEG CSA)	Mae cyllid tlodi misglwyf yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu cynhyrchion misglwyf i fenywod sydd mewn anhawster ariannol.
Urddas Misglwyf	Tlodi	£2.3m (MEG CSA)	Darparwyd cyllid ar gyfer hyn o 2018-19 ac mae'r cyllid hwn i barhau â'r ddarpariaeth hon hyd at 2020-21.
Urddas Misglwyf Addysg Bellach	Tlodi	£0.845m (MEG Addysg)	Cynnig tebyg i hyrwyddo urddas misglwyf yn ymestyn i'r sector Addysg Bellach.
Cronfa Cymorth yn ôl Disgresiwn	Tlodi	£1m (MEG HLG)	Mae'r gronfa hon yn darparu dau fath o grant i'r rhai mewn angen nad oes angen eu talu'n ôl. Mae'r Taliad Cymorth Brys yn helpu gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng neu drychineb ac i dalu costau byw ar unwaith, gan dalu

			<p>costau bwyd a thanwydd i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol difrifol.</p> <p>Mae Taliad Cymorth Unigol yn helpu'r rhai sydd angen gofal i fyw'n annibynnol yn hytrach na mynd i mewn i sefydliad fel cartref gofal neu ysbyty neu aros ynddo.</p>
Credydau Amser	Tlodi	<p>£0.5m (cyfanswm o £1.5m dros 3 blynedd) (MEG CSA)</p>	<p>Gan weithio gyda phartner cyflenwi, bydd y cyllid hwn yn cydgrynhoi nifer o weithgareddau llai yn rhaglen genedlaethol fwy uchelgeisiol.</p>
Grant Datblygu Disgyblion Estyn mynediad	Tlodi	<p>£3.2m (MEG Addysg)</p>	<p>Pwrpas y Grant yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 3, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10. Y bwriad yw goresgyn y rhwystrau</p>

			ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn. Y cynnig yw ymestyn mynediad plant sy'n derbyn gofal i fwy o grwpiau blwyddyn.
Peilot lwfans brechwast am ddim £1 ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd	Tlodi	£0.45m (MEG Addysg)	Y cynnig yw cefnogi astudiaeth ddichonoldeb sy'n gysylltiedig â pheilot i ddechrau ym mis Medi 2020 dros ddwy flynedd ariannol (£450,000 yn 2020/21 a £150,000 yn 2021/22). Y nod yw datblygu, treialu a gwerthuso amrywiaeth o fodolau clybiau brechwast mewn ystod o ysgolion ym mhedwar rhanbarth Cymru, gan gydnabod cost sylweddol bosibl gweithredu yn genedlaethol.
Ehangu Rhaglen Gwella Gwyliau	Tlodi	£1.8m (MEG Addysg)	Mae SHEP wedi'i anelu at fynd i'r

Ysgol (SHEP)			afael â materion fel colli dysgu yn ystod y gwyliau, allgáu cymdeithasol ac ansicrwydd bwyd ac mae wedi cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ers 2017.
Ymestyn rhaglen beilot newyn gwyliau i gyrraedd 10,000 o blant gan ddarparu 200,000 o brydau bwyd	Tlodi	£1m (MEG Addysg)	Mae'r rhaglen beilot Playworks Newyn Gwyliau yn galluogi lleoliadau Playworks chwarae a chymunedol presennol ledled Cymru i ddarparu bwyd i blant sy'n mynychu'r ddarpariaeth chwarae. Drwy gydol gwyliau'r haf 2019, darparwyd bwyd ar draws Cymru mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd i helpu i fynd i'r afael â 'newyn gwyliau'.
Cynyddu'r Grant	Tlodi	£6.6m	Mae'r Grant

<p>Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (EYPDG) i godi pob dysgwr i fyny i £1,150</p>		<p>(MEG Addysg)</p>	<p>Amddifadedd Disgyblion yn gyllid ychwanegol gyda'r bwriad o oresgyn y rhwystrau ychwanegol y mae dysgwyr difreintiedig yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial llawn. Yn 2018, cyhoeddwyd gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar, sydd wedi bod ar waith ers 2015/16. Un casgliad y daethpwyd iddo oedd bod prif gyfyngiadau'r grant yn ymwneud â lefel y cyllid, ei ddosbarthiad i leoliadau nas cynhelir a'r dulliau ar gyfer adnabod plant cymwys.</p>
<p>Cyngor ynni cartref a darparu gwasanaethau</p>	<p>Tlodi</p>	<p>£0.4m (MEG EERA)</p>	<p>Un dewis ar gyfer sut i ddarparu cyngor ynni cartref</p>

<p>cymorth mynd i'r afael â thlodi tanwydd</p>			<p>yn well a mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru yw ystyried rôl Cynllun Cydfuddiannol Ynni. Cynigiwyd rhaglen 12 mis o dair ardal beilot o dan drefniadau presennol Cynllun Nyth neu gynllun gweithredu gwasanaethau cyngor yn 2020-21 i lywio costau a buddion posibl yn well o ganlyniad i well cyngor a chefnogaeth sydd ar gael i gartrefi incwm isel.</p> <p>Byddai'n golygu defnyddio pum gweithiwr achos i ddarparu cyngor a chefnogaeth ddwys i deuluoedd incwm is.</p>
---	--	--	--

Hyrwyddo Twf Economaidd

Mae Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol yn darparu fframwaith ar gyfer dull gweithredu ein llywodraeth gyfan i sicrhau ffyniant i bawb a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi mewn ffordd fwy effeithiol a chydgyssylltiedig. Bydd y strategaeth yn cael ei llywio gan ffocws ar godi lefelau sgiliau, sicrhau cyflogaeth gynaliadwy a lledaenu manteision twf economaidd mor eang â phosibl.

Urddas Misglwyf

Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, darparwyd cyllid refeniw o £0.2 filiwn bob blwyddyn i Awdurdodau Lleol i gefnogi urddas misglwyf mewn cymunedau.

Yn ogystal â hyn, yn 2019, darparwyd cyllid refeniw o £2.3 miliwn i Awdurdodau Lleol i sicrhau bod cynhyrchion misglwyf ar gael i ddysgwyr ym mhob ysgol ledled Cymru yn rhad ac am ddim.

Mae'r lefel hon o gyllid yn cael ei dyrannu i Awdurdodau Lleol at y dibenion hyn yn 2020-21 o gyllideb thema trawsbynciol tloidi.

Bydd yr arian hwn yn galluogi gweithredu er mwyn cefnogi menywod a merched mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau a lliniaru effaith tloidi.

Mae'r weithred hon yn cyfrannu at:

- Parhau â'n gwaith gyda'r holl grwpiau gwarchoddedig i wrthsefyll gwahaniaethu a sicrhau cyfleoedd i bawb; a
- Cefnogi pob dysgwr i oresgyn y rhwystrau i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae gweithredu i fynd i'r afael â thloidi misglwyf yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal a bydd yn helpu i gyflawni cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Mae mynd i'r afael â thloidi misglwyf yn arbennig o berthnasol i amcan 7 y cynllun cydraddoldeb strategol sy'n anelu at leihau tloidi, lliniaru effeithiau tloidi a gwella amodau byw i'r grwpiau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a theuluoedd â phlant anabl drwy ddarparu cefnogaeth i'r teuluoedd hynny sydd fwyaf mewn angen.

Cynhwysiant Ariannol

Mae allgáu ariannol yn parhau i fod yn fater allweddol yng Nghymru ac mae'r gweithgareddau a ariennir yn y BEL i'w cyflawni yn erbyn yr agenda cynhwysiant ariannol yn allweddol i helpu i leihau tloidi. Yn 2020-21 bydd cyllideb y Gronfa Cymorth yn ôl Disgresiwn yn cynyddu £1 filiwn i ateb y galw cynyddol ar y Gronfa. Mae'r gronfa hon yn darparu dau fath o grant i'r rhai mewn angen nad oes angen eu talu'n ôl. Mae'r Taliad Cymorth Brys yn helpu gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng neu drychineb ac i dalu costau byw ar unwaith, gan dalu costau bwyd a thanwydd i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol difrifol. Mae Taliad Cymorth Unigol yn helpu'r rhai sydd angen gofal i fyw'n annibynnol yn hytrach na mynd i mewn i sefydliad fel cartref gofal neu ysbyty neu aros ynddo.

Bydd sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn flaengar yng nghynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn cefnogi unigolion i wella eu sefyllfa ariannol a'u llesiant cyffredinol, gan atal ymyriadau mwy costus i'r pwrs cyhoeddus.

Mae cynhwysiant ariannol yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r blaenoriaethau sgiliau a chyflogadwyedd, iechyd meddwl a thai a nodir yn Ffyniant i Bawb. Gall dyled a rheoli arian yn wael effeithio ar allu unigolyn i gynnal cyflogaeth ac mae cysylltiadau sefydledig y gall materion dyled, tai a llesiant arwain at salwch meddwl. Mae ein gwaith cynhwysiant ariannol yn cefnogi dinasyddion i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas, i baratoi ar gyfer cyflogaeth a chynnal cyflogaeth ac yn lleihau'r risg o brofiadau niweidiol plant drwy liniaru ystod o ffactorau unigol, perthynol, cymunedol a chymdeithasol i rieni / gofalwyr.

Mae'r gwaith Cynhwysiant Ariannol yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Gronfa'n cyfrannu at lawer o'r nodau, gan gynnwys Cymorth "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Cymru iachach". Mae'r cymorth a ddarperir yn helpu'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ariannol i gael mynediad at gynhyrchion ariannol na fyddant, efallai, yn gallu cael gafael arnynt fel arall, gan gyfrannu at Gymru fwy cyfartal, lewyrchus, gwydn ac iachach. Mae hefyd yn ataliol, gydag undebau credyd yn annog yr arfer o gynilo ac yn hyrwyddo mynediad at fenthyciadau moesegol, i bobl sydd, heb wasanaeth undeb credyd, yn debygol o ddefnyddio benthycwyr llog uchel.

Rhaglen Credydau Amser

Yn 2020-21 rydym wedi dyrannu £0.5 miliwn (£1.5 miliwn dros 3 blynedd) i'r Rhaglen Credydau Amser. Mae Credydau Amser yn arian cyfred a gaiff ei ennill am roi amser yn wirfoddol i nifer o brosiectau yn y gymuned. Gellir eu gwario mewn ystod o leoedd, a elwir yn bartneriaid gwariant, ar y cyfan mae'r rhain yn brofiadau cymdeithasol fel sinemâu, ardaloedd chwarae ac atyniadau. Y sefyllfa bresennol yng Nghymru yw tua 13 o brosiectau ar draws amrywiol ardaloedd Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol sy'n gweithredu mewn pocedi, e.e. ym Mro Morgannwg mae'r Adran Dai yn cynnal prosiect Credydau Amser gyda thenantiaid tai ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae yna raglen yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Mae Tempo wedi denu cyfanswm o tua £300,000 mewn cyllid, a bydd y cyfan yn dod i ben ym mis Mawrth 2020.

Yn dilyn ymrwymiad yn y Maniffesto Arweinyddiaeth i ddefnyddio Credydau Amser fel ffordd o gynyddu ymgysylltiad dinasyddion yng ngweithgaredd y Llywodraeth, yn benodol mae swyddogion ymgynghori wedi archwilio'r cyfle am **raglen genedlaethol**. Bydd y cynnig cenedlaethol yn:

- ceisio sefydlu 24 Canolfan Credyd Amser ledled Cymru,
- cynyddu cydlyniant cymunedol drwy gynyddu cyfleoedd gwirfoddoli,
- cynyddu ymgysylltiad dinasyddion â gweithgaredd y Llywodraeth - ymgynghori,
- cynyddu cyfleoedd i bobl mewn tlodi (cymdeithasol, llesiant)
- archwilio cyfleoedd gyda phartneriaid gwariant fel trafndiaeth, ynni a bwyd.

Mae gwerthusiad cynhwysfawr yn rhan o'r rhaglen, a fydd yn canolbwyntio ar 2 thema allweddol - lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd a chynyddu capasiti'r gymuned. Yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau fel Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac ati i sefydlu gweithgaredd cymunedol a chynyddu ehangder y partneriaid gwariant, byddwn

yn datblygu arian cyfred digidol ac yn sicrhau bod y rhaglen gyfan yn ddwyieithog. Rhaglen dair blynedd yw hon sy'n cynnwys cynllun i archwilio cynaliadwyedd ar ddiwedd y rhaglen, yn enwedig hunan-ariannu.

Canfuwyd bod prosiectau unigol, fel prosiect tai Bro Morgannwg, yn cynyddu cyfranogiad y gymuned mewn digwyddiadau gwirfoddoli yn eu hardal, e.e. gardd gymunedol, clirio sbwriel a chynnal a chadw lleol. Maent hefyd wedi defnyddio credydau amser fel modd o gynyddu presenoldeb mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Mae ymgysylltu hefyd wedi digwydd gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n awyddus i gydweithio ar y rhaglen.

Diwygio Lles

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n symud pobl sy'n hawlio budd-daliadau o fudd-daliadau etifeddiaeth i Gredyd Cynhwysol. Dechreuodd hyn ym mis Gorffennaf 2019 ac ar hyn o bryd mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023. Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod tua 131,060 o bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Hydref 2019, ac oddeutu 106,170 o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Awst 2019, o'i gymharu ag amcangyfrifir bod 400,000 o aelwydydd unwaith y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn.

O ganlyniad i barhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol, cyflwynwyd trothwy incwm net a enillwyd yn flynyddol o £7,400 ym mis Ebrill 2019 ar gyfer y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol sydd am hawlio prydau ysgol am ddim i'w plant. Rydym hefyd yn darparu amddiffyniad trosiannol, sy'n golygu bod disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod eu teuluoedd yn derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddiaeth cymwys pan gyflwynwyd y trothwy, neu unrhyw hawlwr newydd sy'n ennill prydau ysgol am ddim wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol, yn cael eu hamddiffyn rhag colli prydau ysgol am ddim tra bod Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, hyd yn oed os yw eu cymhwysedd yn newid. Unwaith y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, bydd unrhyw hawlwr presennol nad ydynt bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd (am eu bod yn ennill uwchlaw'r trothwy) yn parhau i dderbyn amddiffyniad tan ddiwedd cyfnod addysg gyfredol y disgybl (er enghraifft, nes y mae'n gorffen y cyfnod cynradd neu'r cyfnod uwchradd).

Sicrhawyd bod £7 miliwn ychwanegol ar gael drwy'r Setliad yn 2019-20 i ariannu'r cynnydd amcangyfrifedig yn nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r cynnig amddiffyn trosiannol. Mae hyn yn ychwanegol at gyllid o £5 miliwn a ddarparwyd gennym i awdurdodau lleol yn 2018-19, fel grant penodol o fewn y MEG Addysg, i gwrdd â'r costau prydau ysgol ychwanegol am ddim sy'n gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol.

Drwy'r Gronfa Gyngori Sengl, mae £8.04 miliwn o arian grant ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn ystod y cyfnod 1 Ionawr 2020 i 31 Rhagfyr 2020. Mae'r cyllid sydd ar gael wedi'i ddyrannu rhwng chwe rhanbarth a gwasanaeth cyngor o bell cenedlaethol.

Asesiad Effaith Integredig Strategol

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn adlewyrchu'r asesiadau effaith a ystyrir gan feysydd polisi.

Rhoi lle blaenllaw i gydraddoldeb rhywiol wrth lunio polisiau

Mae'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol wedi darparu cyfle gwerthfawr i ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru roi persbectif rhywedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau a chyllideb.

Daeth yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol i ben ym mis Gorffennaf 2019 a chafodd adroddiad a chynllun Chwarae Teg *Gwneud nid Dweud*, ynghyd â nifer o adroddiadau ategol, eu cyhoeddi ar 24 Medi. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ysgrifenedig ar 26 Tachwedd.

Eisoes fel rhan o baratodau drafft cyllideb 2020-21 mae dull cyllidebu ar sail rhyw yn cael ei archwilio fel rhan o raglen beilot newydd Cyfrif Dysgu Personol a lanswyd ym mis Medi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio ei phwerau codi treth newydd mewn ffordd a fydd o fudd teg i bobl a busnesau yng Nghymru. Mae ein Fframwaith Polisi Trethi 2017 yn nodi ein dull strategol o drethu a'r egwyddorion ar gyfer datblygu a rheoli trethi Cymru. Mae hyn yn cynnwys asesiadau penodol o'r effaith ar aelwydydd, grwpiau ac unigolion yng Nghymru wedi'u cynnal yn ôl yr angen.

Wrth i Lywodraeth Cymru barhau i archwilio mesurau treth newydd mewn pedwar maes blaenoriaeth, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan er mwyn i'r safbwyntiau ehangaf posibl gael eu hystyried wrth ddatblygu cynigion polisi treth, mae hyn yn cynnwys ein cynhadledd dreth flynyddol, grwpiau cyfeirio prosiectau a'r Grŵp Cynghori ar Drethi o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Mae ein gwaith cyfredol sy'n archwilio dichonoldeb mesurau treth newydd i helpu i ariannu darpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol yn ystyried yn llawn yr angen am degwch a dilyniant. Mae tystiolaeth yn dangos mai menywod yw gofalwyr yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr anffurfiol di-dâl neu mewn cyflogaeth sydd â chyflog cymharol isel fel gweithwyr cymorth. O ganlyniad, byddwn yn ystyried yn ofalus yr effaith ar ofalwyr wrth ddatblygu ein cynigion. Bydd yr opsiynau cyllido ar gyfer gofal cymdeithasol hefyd yn ystyried agweddau ehangach ar y gweithlu, gan gynnwys gwella cyfraddau cadw a recriwtio.

Gwaith ar y cyd rhwng y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Eleni, rydym wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb sy'n nodi sut rydym yn bwriadu newid a gwella'r ffordd rydym yn dyrannu cyllid ar gyfer Cymru fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd.

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgais tymor byr a thymor canolig dros y 5 mlynedd nesaf, i wella ein prosesau o ran y gyllideb a threthu. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod y camau rydym wedi'u cymryd ar ein taith, a sut rydym wedi adeiladu, neu'n bwriadau adeiladu ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

Rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i ystyried sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn dyrannu adnoddau dros y tymor hwy, gan gynnwys y modd rydym yn asesu effaith ein penderfyniadau cyllidebol.

Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, hefyd, â phob un o'n pedwar Comisiynydd statudol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i glywed eu barn am y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y Gyllideb.

Ar ôl ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol rydym yn mynd ati i ddatblygu dull asesu effaith dyraniadol i ddeall effaith penderfyniadau gwario cyhoeddus ar aelwydydd mewn gwahanol rannau o'r dyraniad incwm.

Rydym wedi gweithio gyda Chwarae Teg a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wrth iddynt ystyried cam 2 o'r Adolygiad Rhywiol. O ganlyniad, rydym yn cyflwyno dull cyllidebu rhywiol fel rhan o'r rhaglen beilot cyfrif dysgu personol dwy flynedd.

Rydym wrthi'n cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r dull Effaith Integredig yn canolbwyntio ar lywio penderfyniadau polisi gwell a mwy o dryloywder. Bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allanol gan gynnwys y Comisiynwyr statudol ac aelodau o'r Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb

Deddfwriaeth

Mae asesu costau deddfwriaeth a'r effaith ar y rhai y mae'n effeithio arnynt yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisi. Ni ellir cael siec wag ar gyfer deddfwriaeth a bydd yn rhaid talu am bob ymrwymiad newydd drwy wneud toriadau yn rhywle arall.

Dyma pam mae pob bil yn destun asesiad cadarn o gostau a buddion, wedi'i gyflawni drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r asesiadau effaith reoleiddiol a gaiff eu paratoi ar gyfer Biliau'r Llywodraeth. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

Mae camau'n cael eu cymryd i wella eglurder a chysondeb asesiadau effaith rheoleiddiol, ond mae'n anochel y bydd newidiadau i'r bil yn ystod gwaith craffu a ffactorau eraill yn arwain at rai amrywiadau rhwng amcangyfrif o'r costau a gyhoeddir yn y cam asesiadau effaith rheoleiddiol a chostau gwirioneddol wrth ei weithredu. Yn

unol â'r ymrwymiad a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid, darparwyd tabl flwyddyn ar ôl blwyddyn yn dangos cost deddfwriaeth sy'n disgyn i Lywodraeth Cymru yn Atodiad F o'r cynigion cyllideb adrannol a gyhoeddir ar 16 Rhagfyr.

Atodiad A

RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) TAI A LLYWODRAETH LEOL				
CYLLIDEB ADNODDAU				
Cam gweithredu	BEL	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	Newidiadau	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Cymorth Ariannol i Lywodraeth Leol	Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol (RSG a NDR)	3,272,384	126,763	3,399,147
	Cynlluniau Bargen Ddinesig a Bargen Twf	10,000		10,000
	Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu	90,350	- 3,750	86,600
	Ardrethi Annomestig: Rhyddhad Ardrethol	30,100	-2400	27,700
	Canlyniadau Refeniw PFI Llywodraeth Leol	3,256	-132	3,124
	Trawsnewid a Deddfwriaeth	6,200	2,657	8,857
	Ardrethi Annomestig: Costau Casglu	5,172		5,172
	Y Cynllun Cymorth Ariannol Brys	1		1
Cyfanswm y Cymorth Ariannol i Lywodraeth Leol		3,417,463	123,138	3,540,601
Gwasanaethau Prisio	Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio	8,561		8,561
	Tribiwnlys Prisio Cymru	1,039		1,039
	Ymchwil a Dadansoddi Trethi Lleol	100		100
Cyfanswm y Gwasanaethau Prisio		9,700	0	9,700
Meithrin Democratiaeth Leol	Noddi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	598		598
	Gwariant i hyrwyddo democratiaeth leol	126		126
Cyfanswm Meithrin Democratiaeth Leol		724	0	724
Gwella Llywodraeth Leol	Gwella a Chymorth*	850	-500	350
Cyfanswm Gwella Llywodraeth Leol		850	-500	350

* 'Gwella ac Archwilio' gynt

Cam gweithredu	BEL	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	Newidiadau	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-
Academi Wales	Academi Wales	1,134		1,134
Cyfanswm Academi		1,134	0	1,134
Cefnogi Cydweithio a Diwygio	Cynghorau Cymuned a Thref	144		144
	Byrddau Gwasanaethau Lleol	530		530
Cyfanswm Cefnogi Cydweithio a Diwygio		674	0	674
Ymyrryd Cynnar, Atal a Chefnogi	Cefnogi Cymunedau	578	-95	483
	Grant Plant a Theuluoedd	135,442		135,442
	Grant Cymorth Tai	126,763		126,763
Cyfanswm Ymyrryd Cynnar, Atal a Chefnogi		262,783	-95	262,688
Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector	Cynhwysiant Ariannol	12,202	1,000	13,202
	Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli	1,250		1,250
Cyfanswm Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector		13,452	1,000	14,452
Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd	Gwasanaethau Tân ac Achub	10,415	10	10,425
	Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu	1,765		1,765
	Diogelwch Tân Cymunedol	848		848
Cyfanswm Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd		13,028	10	13,038
Atal Digartrefedd	Digartrefedd	17,907		17,907
Atal Digartrefedd		17,907	0	17,907
Polisi Tai**	Polisi Tai**	4,884	545	5,429
Cyfanswm Atal Digartrefedd		4,884	545	5,429
Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy	Grant Cyllid Tai	13,100		13,100
Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy		13,100	0	13,100
Cyllid Refeniw Tai	Cyllid Refeniw y Rhaglen Dai	1,073		1,073
Cyfanswm Cyllid Refeniw Tai		1,073	0	1,073
Adfywio	Adfywio	620	-60	560
	Awdurdod Harbwr Caerdydd	5,400		5,400
Cyfanswm Adfywio		6,020	-60	5,960
RHANNAU O'R MEG TAI A LLYWODRAETH LEOL - CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU		3,762,792	124,038	3,886,830

** 'Byw'n Annibynnol' gynt

RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) TAI A LLYWODRAETH LEOL					
CYLLIDEB GYFALAF				£000oedd	
Cam gweithredu	BEL	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	Cynlluniau'n unol â Chyllideb Derfynol 2019-20	Newidiadau	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol	Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol	212,837	182,837	15,000	197,837
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol		212,837	182,837	15,000	197,837
Cyfleusterau Cymunedol	Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol	0	4,838	-4,838	0
		0	4,838	-4,838	0
Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector	Cynhwysiant Ariannol	500	-5	0	-5
Cyfanswm Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector		500	-5	0	-5
Y Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnherthedd	Gwasanaethau Tân ac Achub	1,000	1,210	-210	1,000
	Gwasanaethau Tân ac Achub - Systemau Cyfathrebu	410	0	210	210
	Diogelwch Tân Cymunedol	670	670		670
Cyfanswm Swyddogion Cymorth Cymunedol		2,080	1,880	0	1,880
Polisi Tai*	Y Rhaglen Addasiadau Brys	5,660	5,660		5,660
Cyfanswm Polisi Tai		5,660	5,660	0	5,660
Y Gronfa Gofal Integredig	Y Gronfa Gofal Integredig	35,000	40,000	2,000	42,000
Cyfanswm y Gronfa Gofal Integredig		35,000	40,000	2,000	42,000
Sicrhau Tai o Ansawdd	Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Llenwi Bwlch Gwaddol	108,000	108,000		108,000
Cyfanswm Sicrhau Tai o Ansawdd		108,000	108,000	0	108,000
Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy	Grantiau Tai Cymdeithasol	188,219	90,147	133,072	223,219
	Tir ar gyfer Tai	10,000	10,000		10,000
Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy		198,219	100,147	133,072	233,219
Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad	Cronfa Cymorth i Brynu (Cymru) a Chynlluniau Eraill	62,137	33,510	35,000	68,510
Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad		62,137	33,510	35,000	68,510
Adfywio	Adfywio	28,662	36,808	15,000	51,808
Cyfanswm Adfywio		28,662	36,808	15,000	51,808
RHAN O'R MEG TAI A LLYWODRAETH LEOL - CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF		653,095	513,675	195,234	708,909

Tudalen y pwyblyd

* 'Byw'n Annibynnol' gynt

RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT(MEG) GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU				
CYLLIDEB ADNODDAU		£000oedd		
Cam gweithredu	BEL	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	Newidiadau	Cynruntiau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	5,000	250	5,250
Cyfanswm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol		5,000	250	5,250
Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Cydlyniant Cymunedol	1,560	40	1,600
	Cydraddoldeb a Ffyniant	2,701	3065	5,766
Cyfanswm Cydraddoldeb a Chynhwysiant		4,261	3,105	7,366
Gwasanaethau Eiriolaeth	Gwasanaethau Eiriolaeth	8,901		8,901
Cyfanswm Gwasanaethau Eiriolaeth		8,901	0	8,901
Cymorth i'r Sector Gwirfoddol	Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli	6,230	395	6,625
Cyfanswm Cymorth i'r Sector Gwirfoddol		6,230	395	6,625
Swyddogion Cymorth Cymunedol	Swyddogion Cymorth Cymunedol	16,787		16,787
Cyfanswm Swyddogion Cymorth Cymunedol		16,787	0	16,787
Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid	Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid	0	575	575
Cyfanswm Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid		0	575	575
Cyrff a Gwasanaethau Allanol	Chwarae Teg	360		360
Cyfaswm Cyrff a Gwasanaethau Allanol		360	0	360
RHAN O'R MEG GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU - CYFANSWM Y GYLLIDEB REFENIW		41,539	4,325	45,864

RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU					
CYLLIDEB GYFALAF					
£000oedd					
Cam gweithredu	BEL	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	Cynlluniau'n unol â Chyllideb Derfynol 2019-20	Newidiadau	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	969	969	1,200	2,169
Cyfanswm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol		969	969	1,200	2,169
Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	8,300	5,000		5,000
		8,300	5,000	0	5,000
Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol*	Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol*	5,034		5,838	5,838
Cyfanswm Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector		5,034	0	5,838	5,838
RHAN O'R MEG GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU - CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF		14,303	5,969	7,038	13,007

*Trosglwyddwyd y Gyllideb i mewn i Wasanaethau Canolog a Gweinyddu i gyd-fynd â'r portffolio Gweinidogol yn y Gyllideb Atodol gyntaf ac ni chafodd ei chynnwys yn llinell sylfaen y Gyllideb Ddrafft

RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) TAI A LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU					
TRAFODIADAU ARIANNOL			£000oedd		
Cam gweithredu	BEL	Trafodiadau ariannol	Cynlluniau'n unol â Chyllideb Derfynol 2019-20	Newidiadau	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector	Cynhwysiant Ariannol	Undebau Credyd	-5	0	-5
Cyfanswm Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector			-5	0	-5
Y Gronfa Gofal Integredig	Y Gronfa Gofal Integredig	Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron	0	2,000	2,000
Cyfanswm y Gronfa Gofal Integredig			0	2,000	2,000
Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy	Grantiau Tai Cymdeithasol	Adeiladu â Dulliau Modiwlwr a Benthyciadau Tai	0	60,000	60,000
	Tir ar gyfer Tai	Tir ar gyfer Tai	10,000	0	10,000
Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy			10,000	60,000	70,000
Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad	Cronfa Cymorth i Brynu (Cymru) a Chynlluniau Eraill	Cymorth i Brynu	33,510	35,000	68,510
Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad			33,510	35,000	68,510
Adfywio	Adfywio	Benthyciadau Canol Trefi	0	10,000	10,000
Cyfanswm Adfywio			0	10,000	10,000
Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol	Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol	Raglen Benthyciadau Asedau Cymunedol	0	1,000	1,000
			0	1,000	1,000
RHAN O'R MEG TAI A LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU			43,505	108,000	151,505

WLGA Briefing

Welsh Government Draft Budget And Provisional LGF Settlement 2020-21



Leaders, Finance Cabinet Members, Chief Executives and
Directors of Finance (inc FRS and NPAs)

16 December 2019

Jon Rae

Summary

Earlier this afternoon the Welsh Government published its [draft budget](#). The **budget¹ will increase by £953m (5.7%)**. Day-to-day spending will increase by **£608m (4.1%)** and spending on capital will increase by **£345m (17.4%)**. There are **no indicative revenue figures for future years**, but we expect a new UK Government to launch a Spending Review in the new year.

The Minister for Housing and Local Government has also published the provisional local government finance settlement. There is an **increase in the revenue settlement (Aggregate External Finance) which is 4.3% higher than 2019-20 on a like-for-like basis**. The Welsh Government have increased AEF by £184m.

Over the summer we estimated local government's **spending pressures at around £254m for 2020-21, and within that workforce pressures estimated at £177m**. It is clear that a substantial proportion of pressures have been funded but there will be local variations to what is an all-Wales aggregate picture.

The announcement is unusual in that it has been made in recess. The Minister for Finance & Trefnydd will make a statement to the National Assembly on the **on 6 January 2020**. The National Assembly will then scrutinise portfolio plans in the respective policy committees over January and February.

¹ This is spend within Departmental Expenditure Limits (DEL) so excludes Annually Managed Expenditure (AME)

The Welsh Government's Draft Budget

Overall the Welsh Government's Total Managed Expenditure will be close to £20bn in 2020-21. Within that definition is the Departmental Expenditure Limit (DEL) which is the element of the budget under direct Ministerial control.

The capital and revenue DEL will increase by £953m (5.7%) to £17.4bn. Day-to-day spending will increase by £608m (4.1%) to £15.4bn and spending on capital will increase by £345m (17.4%) to £2.3bn.

Figure 1: Changes to Welsh Government Departmental Expenditure Limit (DEL) 19-20 to 20-21

Resource and Capital (Excluding AME)	Resource		Capital		Total	
	£000s	%	£000s	%	£000s	%
Health and Social Services	365,398	4.6%	1,392	0.4%	366,790	4.4%
Housing and Local Government	126,233	3.3%	58,314	8.6%	184,547	4.1%
Economy and Transport	22,690	3.2%	204,559	35.2%	227,249	17.6%
Education	55,937	3.7%	- 735	-0.3%	55,202	3.2%
International Relations and the Welsh Language	5,263	3.3%	34,030	224.1%	39,293	22.2%
Environment, Energy and Rural Affairs	5,391	2.6%	43,931	50.5%	49,322	16.5%
Central Services and Administration	27,374	8.3%	3,448	13.1%	30,822	8.7%
Total Resource and Capital (Excluding AME)	608,286	4.1%	344,939	17.4%	953,225	5.7%

The increases in the revenue and capital DEL across ministerial portfolios are set out in Figure 1. Revenue DEL for Housing and Local Government increases by 3.3%. Business rates lies outside the DEL definition as part of Annually Managed Expenditure (AME). It increases by £75m (7.1%) to £1.14bn.

Local Government Settlement


The announcement today is confirmed in the traditional [letter](#) to Leaders. There is an increase in Aggregate External Finance (AEF) of £184m or 4.3% on like-for-like basis.

Figure 2 below shows an inevitable range around of the average driven by the funding formula. This is largely a reflection of movements in a number of datasets derived from the schools' census and financial data. The reversion to the use of the mid-year population estimates has also impacted.

The lowest increase is Monmouthshire with 3% and the highest is Newport with an increase of 5.4%.

There is no floor protection and the Minister has set out her rationale in her letter.

Figure 2: Changes to AEF, 2018-19 to 2019-20 by local authority



Source: WG Provisional LGF Settlement 2019-20

The increase is on top of **4 transfers into the settlement:**

- £39.112m for the teachers' pensions grant (the 7/12s element)
- £12.018m for the teachers' pay grant (the 7/12s element)
- £1.9m for NHS funded nursing care
- £151k for the Coastal Risk Management Programme

You would have to go back to 2007-08 to find a settlement with a similar significant increase.

Specific Revenue Grants

On a like-for-like basis specific revenue grants **will increase from £971m to £982m** which is a slight increase of about 1%. While many of the grants remain unchanged from the 2019-20 figure, there is a significant decrease in the Sustainable Waste Management grant. The £7.5m grant that contributed to teachers' pay for the 2018-19 pay award comes to an end as it was a 'time-limited' arrangement.

There are increases in several grant schemes, some of the more significant include:

- Regional Consortia and School Improvement Grant £154m
- Pupil Development Grant £101m
- PDG Access Grant £8m
- Residual Waste Gate Fee Support £13m
- Childcare Offer £56m
- Social Care Workforce and Sustainability Grant £40m

Details of around 80 revenue grants are set out in [table 7 in the suite of settlement tables](#).

General Capital Funding (GCF) and Capital Grants

Overall Capital Funding (both GCF and Capital Grants) will increase from **£532m to £646m on a like-for-like basis**. The £113m represents a 21% increase.

General Capital Funding (GCF) increases **from £173m to £178m**. This is a 3% increase year on year increase (but actually a £15m increase over original plans). **Capital Grants are set to increase by £108m which is a 30% increase.**

Details of the capital funding and capital grants are set in [table 2b in the suite of settlement tables](#).

Also appended:

[Link to Welsh Government Draft Budget 20-21](#)

[Link to Provisional LG Settlement 20-21](#)

Annex I: WLGA's response to Provisional LGF Settlement

DATGANIAD I'R WASG WLGA PRESS RELEASE

Dydd Llun 16 Rhagfyr 2019 / Monday 16
December 2019

*Sgroliwch i lawr am y Saesneg / Please
scroll down for English*



Cynnydd ariannol sylweddol cyntaf mewn 12 mlynedd yn cael ei groesawu gan CLILC

Mae CLILC heddiw wedi croesawu setliad "cadarnhaol" ar gyfer cynghorau y flwyddyn nesaf a fydd yn gweld cynghorau yn derbyn y cynnydd mwyaf mewn 12 mlynedd o ran cyllid craidd.

Bydd cynghorau yn derbyn hwb o 4.3% yn y cyllid sy'n cael ei ddyrannu iddyn nhw'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru i helpu i gynnal gwasanaethau lleol. Mae cyllid cyfalaf ychwanegol hefyd wedi cael ei neilltuo ar gyfer buddsoddiad mewn isadeiledd.

Ers cychwyn y cynni ariannol yn 2010, mae gwasanaethau lleol wedi ysgwyddo dros £1bn o doriadau sy'n golygu bod cynghorau wedi gorfod blaenoriaethu'n ofalus a gwneud penderfyniadau anodd iawn. Er bod setliad y flwyddyn nesaf yn ryddhad i awdurdodau lleol, mae'r rhagolwg o ran cyllid yn parhau i fod yn heriol. Bydd yn rhaid i gynghorau barhau i wneud penderfyniadau anodd i flaenoriaethu gwasanaethau, gan gynnwys cynyddu'r dreth gyngor i gwrdd a'r diffyg ariannol.

Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf), Arweinydd CLILC ac Arweinydd y Grŵp Llafur:

"Fel Arweinydd newydd CLILC, rwy'n croesawu'r setliad eithriadol o dda yma. Rydyn ni'n hapus fod ein ymgysylltu cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru wedi talu ar ei ganfed ar gyfer ein gwasanaethau, ein gweithlu ac ein trigolion. Trwy gydol y flwyddyn, rydyn ni wedi bod yn cwrdd â nifer o Weinidogion sydd wedi gwrandao'n ofalus ar yr hyn oedd gennym ni i ddweud ac yn cydnabod yr effaith ddinistriol mae cynni wedi ei gael ar wasanaethau lleol a gweithwyr rheng flaen.

“Hoffwn i ddiolch i’r Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol, Julie James, Gweinidog Cyllid a Threfnydd, Rebecca Evans, a’r Prif Weinidog Mark Drakeford. Mae nhw wedi dangos ymrwymiad amlwg i lywodraeth leol. Mae gwasanaethau lleol yn hanfodol i gadw pobl yn iach ac i ffwrdd o ystafelloedd aros ein hysbytai, a mae’n hollbwysig eu bod nhw’n derbyn y cyllid sydd ei angen arnyn nhw.”

Dywedodd y Cyngorydd Anthony Hunt (Torfaen), Llefarydd CLILC dros Gyllid:

“Mae llywodraeth leol yn rhannu’r un blaenoriaethau â Llywodraeth Cymru. Bydd arweinwyr ledled Cymru yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio i’n hysgolion i wella cyflawniadau addysgol, ac i ofal cymdeithasol i sicrhau bod y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn derbyn y gofal y mae nhw ei angen.

“Trwy gydol y cynni ariannol, mae cyngorau wedi rheoli eu cyllidebau’n ofalus, gan wneud arbedion effeithlonrwydd bob blwyddyn. Wedi degawd o doriadau dwfn a dinistriol, roedden ni’n brysur agosáu at gyrraedd y pen. Rwy’n gobeithio fod y setliad yma’n nodi cychwyn siwrnai hollol wahanol.”

Dywedodd y Cyngorydd Peter Fox OBE (Sir Fynwy), Arweinydd Grŵp Ceidwadol CLILC:

“Rwyf wedi fy siomi gyda’r setliad yma. Rhoddodd Lywodraeth y DU ddigon o gyllid i Lywodraeth Cymru i wneud lawer gwaith gwell na hyn, a mae nhw unwaith eto wedi methu llywodraeth leol yng Nghymru. Ymhellach, rydyn ni’n gweld gwahaniaethau mawr yn y cyllid sy’n cael ei dderbyn gan rai cyngorau o gymharu ag eraill. Mae gwahaniaeth o rhwng 3% a 5.4% yn hurt y dyddiau yma. Rhaid gwneud rhywbeth i fynd i’r afael â’r amrywiad yma.”

Dywedodd y Cyngorydd Emlyn Dole (Sir Gaerfyrddin), Arweinydd Grŵp Plaid Cymru CLILC:

“Mae’r setliad cadarnhaol heddiw yn cydnabod yr heriau a wynebir gan gyllidebau awdurdodau lleol o ran pwyseddau’r gweithlu a demograffig. Mae’r £184m ychwanegol yn gynnydd i’w groesawu wedi blynyddoedd o ostyngiadau mewn termau real. Ond nid yw’n cwrdd â’r holl bwyseddau a bydd awdurdodau lleol yn dal i wynebu penderfyniadau anodd, a bydd angen ystyried yn ofalus sut y bydd y dreth gyngor yn pontio’r bylchau mewn cyllidebau.”

“Ni fydd yn dadwneud y £1bn o doriadau sydd wedi ei dynnu o goffrau llywodraeth leol ers 2009-10, ond rwy’n gobeithio ei fod yn cychwyn ar batrwm gwahanol. Rydyn ni wedi colli tua 37,000 o swyddi o fewn llywodraeth leol ers 2009-10, sydd yn cynnwys athrawon a swyddogion rheng flaen. Does yr un arweinydd yn camu i’r byd gwleidyddol i wneud penderfyniadau o’r fath. Gyda’r cyllid sydd nawr ar gael,

gallwn ni ddechrau amddiffyn ein gwasanaethau craidd, yn enwedig ysgolion a gwasanaethau gofal.”

Y Cynghorydd Hugh Evans OBE (Sir Ddinbych), Arweinydd Grŵp Annibynnol CLILC:

“Dyma’r setliad gorau y mae llywodraeth leol wedi ei weld ers 2007-08, ac yn nodi cam i gyfeiriad gwahanol o ran y cyllid grant y mae llywodraeth leol yn ei dderbyn. Er mwyn gallu cynllunio’n well i’r dyfodol ac i roi mwy o sicrwydd i’n trigolion, mae cynghorau angen fframwaith cyllidebol aml-flwyddyn fwy cadarn fel ein bod ni’n gallu delio ag atal ac ymyrraeth gynnar mewn cyd-destun fwy hir dymor.”

“Bydd Adolygiad Gwariant y flwyddyn nesaf yn cynnig cyfle i wynebu hynny a rwy’n edrych ymlaen i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru o ran mwy o hyblygrwydd fel ein bod ni’n gallu canfod atebion cynaliadwy hir-dymor i gyllid lleol. Rwy hefyd yn pryderu am sut y mae’r setliad yn amrywio ar draws yr awdurdodau, a byddaf yn edrych i ganfod sut y gallwn ni ddatrys hynny.”

-DIWEDD-

First significant funding increase in 12 years welcomed by WLGA

WLGA has today welcomed a “positive” settlement for councils next year which will see councils receive the first significant increase in their core grant funding in over 12 years.

Councils will get a 4.3% boost in the block funding which is annually allocated to them by Welsh Government to help maintain local services. Extra capital funding has also been made available for investment in infrastructure.

Local services have shouldered cuts of over £1bn since the onset of austerity in 2010, meaning that councils have had to carefully prioritise and take extremely difficult decisions. Although next year’s settlement provides some breathing space for local authorities, the financial outlook remains very challenging. Councils will have to continue to make tough decisions to prioritise services, including council tax increases to help meet the funding shortfall.

Councillor Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf), WLGA Leader and Labour Group Leader said:

“As the new Leader of the WLGA I welcome this exceptionally good finance settlement. I am pleased that our positive engagement with the Welsh Government has paid dividends for our services, for our workforce, and for our

residents. Throughout this year we have met with a number of Ministers who have listened carefully to what we had to say and have recognised the damaging effect that austerity has had on local services and frontline workers.

"I would like to personally thank the Minister for Housing and Local Government, Julie James, the Minister for Finance and Trefnydd, Rebecca Evans, and the First Minister, Mark Drakeford. They have clearly shown a commitment to local government. Vital local services are essential to prevent keep people well and out of hospital waiting rooms, and it is crucial that those services receive the funding that they need."

Councillor Anthony Hunt (Torfaen), WLGA Finance Spokesperson said:

"Local government shares the same priorities with Welsh Government. Leaders across Wales will be doing everything in their power to ensure that funding is directed towards schools to improve education outcomes, and towards social care to ensure the most vulnerable in our communities receive the care they deserve.

"Councils have carefully managed their budgets throughout austerity, making efficiency savings year after year. After a decade of deep and damaging cuts, we were rapidly reaching breaking point. I hope this settlement marks the start of a completely different journey"

Councillor Peter Fox (Monmouthshire), WLGA Conservative Group Leader said:

"I am disappointed with this settlement. The UK Government gave sufficient resource to the Welsh Government to do significantly better than this and they have failed local government in Wales again. Furthermore, we yet again see massive distortions in the funding received by some councils in comparison to others. A differential between 3% and 5.4% is ridiculous in current times. Something needs to be done to address this variation."

Councillor Emlyn Dole (Carmarthenshire), WLGA Plaid Cymru Group Leader said:

"The positive settlement today recognises the challenges faced by local authority budgets in terms of workforce and demographic pressures. The additional £184m is a welcome increase after years of real terms reductions. It does not cover all the pressures and local authorities will still be faced with tough decisions and will need to carefully consider how council tax will bridge remaining gaps in budgets.

"It will not completely reverse the £1bn that has been taken from core funding since 2009-10, but I hope that this is the beginning of a different trend. We have lost around 37,000 jobs in local government since 2009-10 which includes teachers and other frontline officers. No leader comes into politics to make these kinds of

decisions. With the funding that has now been made available we can start to protect our core services especially schools and social services.”

Councillor Hugh Evans OBE (Denbighshire), WLGA Independent Group Leader said:

“This is the best settlement local government has seen since 2007-2008 and marks a step change in the grant funding that local government receives. To properly plan for the future and to give our residents more certainty, councils need a more robust multiyear financial framework so that we can properly address prevention and early intervention in a longer-term context.


“Next year’s Spending Review will offer an opportunity to address that and I look forward to discussions with Welsh Government around more flexibilities so that we can find sustainable long-term solutions to local finances. I am also concerned about the variation across all local authorities and will be looking to find ways in which this can be addressed.”

-ENDS-

Briff i Aelodau'r Cynulliad

Sut mae cyllideb ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Rhagfyr 2019



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Tudalen y pecyn 86

Crynodeb

Cyllideb Llywodraeth Cymru yw'r un penderfyniad mwyaf (neu set o benderfyniadau) sy'n cael ei wneud gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal â phenderfynu sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu, mae'r broses gyllidebol a phenderfyniadau penodol yn anfon arwyddion pwysig am flaenoriaethau i'n holl wasanaethau cyhoeddus ac yn dangos i ba raddau'r mae'r blaenoriaethau hynny'n symud yn unol â'r dyheadau a osodwyd gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan fod y gyllideb yn set o benderfyniadau sydd mor bwysig i ddyfodol Cymru, rwy'n monitro ac asesu'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn ac yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Wrth fonitro'r gyllideb, eleni rwy'n canolbwyntio ar:

DDATGARBONEIDDIO - Sut mae Llywodraeth Cymru'n cwrdd â'r Argyfwng Hinsawdd drwy benderfyniadau a dyraniadau'r gyllideb?

ATAL - Sut mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r diffiniad o atal i sefydlu ymagweddau ataliol drwy benderfyniadau a dyraniadau'r gyllideb?

Drwy ymgysylltu â staff Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n glir bod y pynciau hyn o ddiddordeb i Aelodau o wahanol Bwyllgorau. Mae'r briff hwn felly'n rhoi trosolwg o'r canlynol:

- Fy nisgwyliadau o'r modd y dylai'r gyllideb fod yn newid mewn perthynas â datgarboneiddio ac atal;
- Cynnydd Llywodraeth Cymru, yn cynnwys asesiad lefel uchel o ymrwymiadau yn naratif y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr;
- Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu harchwilio ymhellach mewn perthynas â datgarboneiddio ac atal, fel rhan o graffu ar y gyllideb.

 SOPHIE HOWE
Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru

Tudalen y pecyn 87



Cynnwys


- 01 1) Buddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd
- 06 2) Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol
- 11 3) Asesu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y gyllideb
- 14 4) Cymryd camau pellach tuag at ymagwedd tymor hir

Mae'r adrannau hyn yn seiliedig ar argymhellion a gynhwyswyd yn y cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebol, a gyhoeddais yn Rhagfyr 2018.

▶ Gellir cyrchu hwn ar:
<https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/12/2018-11-29-FGC-Budget-Recommendations-CYM.pdf>

Mae sawl cyfeiriad at argymhellion yn y briff:

- Bydd argymhellion gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ymddangos mewn **oren**.
- Bydd argymhellion gan Bwyllgorau y Cynulliad, sydd yn cefnogi ein argymhellion i'w gael mewn **glas**.



Adran 1

1

Buddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd

Yn seiliedig ar fy ngwaith craffu ar y gyllideb llynedd, roedd fy nghyngor yn cynnwys dau argymhelliad i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod buddsoddi mewn datgarboneiddio'n adlewyrchu uchelgais:

Argymhelliad: Mae Llywodraeth Cymru'n mynegi'n glir sut y bydd y camau a osodir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael ei ariannu er mwyn i ni gwrdd â'n targedau gostwng allyriadau statudol;

Argymhelliad: Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ac yn gosod y lefel buddsoddi traws Lywodraeth sydd ei angen i gwrdd â'n targedau, yn arbennig mewn perthynas â: i. Trafnidiaeth; ii Tai/adeiladau; iii. Y trawsnewid i Gymru garbon isel.

Ar Fawrth 21, 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cynllun Carbon Isel cyntaf – “Ffyniant i Bawb”.

Ar 29 Ebrill cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ei bod yn Argyfwng ar yr Hinsawdd.

▶ Gellir cyrchu'r cynllun hwn ar:
<https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/06/Cynllun-10-Pwynt-i-Ariannu-Argyfwng-Hinsawdd-Cymru-Adroddiad-Manwl.pdf>

Ym Mehefin cyhoeddais Gynllun Deg Pwynt i gyllido Argyfwng Hinsawdd Cymru sy'n cynnwys cynigion ar gyfer cynyddu buddsoddi mewn meysydd allweddol yn cynnwys trafndiaeth gynaliadwy, adeiladau a chartrefi carbon isel/sero, ynni adnewyddadwy a datrysiadau seiliedig ar dir/natur.

Er ei bod yn anodd cyfrifo faint yn union o gyllid sydd ei angen, gwyddom y bydd ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gofyn, yn gyffredinol, am lefel llawer uwch o fuddsoddiad.

Mae fy Nghynllun yn argymhell cyfanswm o £991 miliwn o ddyraniad i gynorthwyo datgarboneiddio yng nghyllideb nesaf Llywodraeth Cymru (2020-21) sydd yn unol ag amcangyfrif Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o ryw £30 biliwn dros y cyfnod i fyny at 2050 (neu 1-2% o Gynnyrch Domestig Gros).



Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

“Ar gyfer ymagwedd fwy strwythurol a thymor hwy, mae'r Cynllun Deg Pwynt a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol [...] yn gosod ymagwedd i'w hystyried a'i defnyddio fel canllaw...”

▶ Extinction Rebellion Cymru - ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Dros y 3 mis diwethaf, rwyf wedi gofyn am wybodaeth gan Weinidogion, ac ymatebion manwl i'r cwestiynau canlynol:

1. Gan adeiladu ar y camau a nodir yn y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel, beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddiad datgarboneiddio mewn perthynas â'ch portffolio a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â refeniw a gwariant cyfalaf?
2. Beth yw eich asesiad o'r dyraniadau a nodwyd yn fy Nghynllun 10 Pwynt, ac os ydych chi'n anghytuno â'r awgrymiadau beth yw eich cynigion?
3. Sut ydych chi'n asesu faint rydych chi'n ei wario yn gyffredinol ar gamau datgarboneiddio, ac a oes gennych chi ddull ar gyfer dosbarthu gwariant datgarboneiddio?
4. Ar sail y pwyntiau uchod, pa newidiadau penodol fydd yng nghyllideb ddrafft 2020-21?

Rwyf wedi cynnal nifer o sgysiau gyda Gweinidogion a swyddogion: Tra bu ymgysylltu'n gadarnhaol, mae trafodaethau ac ymatebion hyd yn hyn wedi bod yn brin mewn manylder, gan gyfeirio at bocedi o gyllid ar gyfer gweithgareddau ond heb dystiolaeth o newid systemig na thrawsffurfiol.

O'r sgysiau hyn mae canfyddiadau'n cynnwys:

- Ymddengys bod diffyg cysylltiad rhwng ymrwymadau polisi a wnaethpwyd (er enghraifft yn “Carbon Isel Cymru”) a dyraniadau cyllideb.
- Ymddengys nad yw'r datganiad am “argyfwng” hinsawdd yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau am y broses gyllidebol a dyraniadau, sydd yn aml yn cyfeirio at heriau a rhwystrau.
- Ymddengys nad oes dystiolaeth bod gan Lywodraeth Cymru broses glir i ddsbarthu neu asesu faint y maent ar hyn o bryd yn ei wario (neu angen ei wario) ar gamau datgarboneiddio i gyflawni'r cyllidebau neu dargedau carbon statudol.
- Nid oes ymagwedd gyson tuag at ymgymryd ag asesiadau effaith carbon ar gyfer prosiectau seilwaith mawr; nid yw'n glir sut mae effaith carbon yn trwytho penderfyniadau (ar brosiectau neu gyllid) ac nid oes coladu canolog o Asesiadau Effaith Carbon ar draws y Llywodraeth.
- Er enghraifft, er bod 'Project Pipeline 2019' Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n crybwyll buddsoddiad ychwanegol o £14.5 miliwn ar gyfer teithio llesol, nid yw'n glir sut mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n gyffredinol yn rhoi blaenoriaeth i fesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gyda 64% o gyllideb trafndiaeth Cymru ar hyn o bryd yn cael ymddangos i adeiladu ffyrdd.

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Rwyf wedi herio'r Llywodraeth ar y modd y maent yn deall i ba raddau mae penderfyniadau'n 'datgarboneiddio' h.y. deall effaith carbon cyfredol sy'n deillio o benderfyniadau buddsoddi, ac effaith datgarboneiddio a photensial penderfyniadau'r dyfodol. Mae'n glir nad oes gan y Llywodraeth ymagwedd gyson tuag at wneud hyn ar hyn o bryd, ac maen nhw wedi gofyn i mi ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn.

Rwyf wedi canolbwyntio ar drafnidiaeth fel maes allweddol ble gall Llywodraeth Cymru wneud cynnydd, yn enwedig am fod cynnydd mewn lleihau allyriadau'r sector drafnidiaeth yn llai na'n targed. Yn ystod trafodaethau gyda'r Llywodraeth fe wnaethon ni amlygu sawl her a chyfyngiad yn y maes hwn, yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o arian cyfalaf eisoes wedi cael ei glustnodi ar gyfer 2020/21, nad yw cyfrifoldeb am isadeiledd y rheilffyrdd wedi'i ddatganoli i Gymru, ac mai cyfyng yw'r sgôp ar gyfer gweld dyraniadau cyllidon newid yn sylweddol. Ymddengys yn glir bod ffocws presennol y Llywodraeth ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth ar y ffyrdd, yn hytrach nag ar y potensial ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn cyflawni symudiad sylweddol mewn arferion.

Cefnogir ein canfyddiadau gan argymhellion Pwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig '[Adroddiad Blynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran newid hinsawdd, 2019-20](#)' (a gyhoeddwyd 18 Rhagfyr) sy'n cynnwys:

Argymhelliad 6: Dylai cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru esbonio a dangos yn glir sut y bydd dynodiadau cyllido'n cefnogi'r flaenoriaeth i ddatgarboneiddio.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o gostau, manteision ac effaith datgarboneiddio ymhob polisi a chynnig a gynhwysir yn fersiwn nesaf ei chynllun datgarboneiddio.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno mecanwaith, fel asesiad effaith carbon, i adrodd i'r Senedd am unrhyw benderfyniadau polisi a fydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allyriadau carbon.

▶ Dolen yr adroddiad:
<https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12934/cr-ld12934%20-w.pdf>

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Adborth ar y Gyllideb Ddrafft

Oddi mewn i'r Gyllideb Ddrafft, [rwy'n croesawu'r cynnydd o £59 miliwn \(37%\) mewn cyfanswm gwariant ar deithio cynaliadwy](#), wrth i £219 miliwn gael ei glustnodi yn 2020/21 ar gyfer prisiau tocynnau gostyngedig, cefnogaeth i fysiau, cardiau clyfar, cynlluniau teithio ar bris gostyngol i ieuencid, blaenoriaethau llywodraeth leol a theithio cynaliadwy a llesol. Bydd hyn yn annog datgarboneiddio trafniadaeth a lefelau uwch o weithgarwch corfforol.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad bod £140 miliwn ar gael mewn cyllid cyfalaf newydd ar gyfer yr hinsawdd a'r amgylchedd – mae hyn yn mynd â'r [cyfanswm gwariant cyfalaf sy'n benodol ar yr hinsawdd a'r amgylchedd dros y trothwy 5%](#). Ochr yn ochr â buddsoddi £30 miliwn mewn isadeiledd i gerbydau trydan, cerbydau allyriadau isel ac mewn systemau metro newydd (i ogledd Cymru), ynghyd â pharhau i gyllido'r rhyddfrint rheilffyrdd newydd, dengys hyn ymrwymiad y Llywodraeth i fuddsoddi mewn atebion rhagweithiol i'r argyfwng hinsawdd.

Er fy mod i'n croesawu'r [cynnydd mewn buddsoddi cyfalaf mewn teithio llesol, trafniadaeth gyhoeddus ac isadeiledd i gerbydau trydan, o £80 miliwn](#), ymddengys bod hwn wedi cael ei wrthbwysio gan gynnydd sylweddol cyfatebol mewn buddsoddi cyfalaf mewn heolydd newydd. Yn hynny o beth, mae'r gyfran o gyfalaf sy'n cael ei gwario ar deithio llesol a chyhoeddus yn dal ychydig islaw'r lefel o 60% a argymhellir yn fy Nghynllun 10 Pwynt.

Mae'r pecyn £140 miliwn hefyd yn cynnwys cyllido cyfalaf o £25 miliwn i ymestyn y Rhaglen Dai Arloesol, £8.2 miliwn ar gyfer prosiect dai carbon niwtral yng Ngholeg y Cymoedd a chyllid i fynd i'r afael â'n hargyfwng natur, er bod y dynodiadau hyn yn brin o'r hyn a argymhellwyd gennyf yn fy Nghynllun. Serch hynny, er bod y gyllideb wedi targedu buddsoddiad i gyfeiriad mesurau "y mae tystiolaeth bresennol yn cefnogi fel rhai ble gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf i ddarparu ein cyllideb garbon gyntaf" [erys y ffaith nad oes dim asesiad holistig o effaith garbon net y gyllideb, ac ni ddarperir tystiolaeth fanwl i ddangos sut y maent wedi blaenoriaethu penderfyniadau gwario yn unol â hynny](#).

Ystyr hyn yw na all y Llywodraeth ddweud wrthym a yw'r ffordd y maen nhw'n gwario'u harian yn arwain at gynnydd ynteu leihad mewn allyriadau carbon. O ganlyniad, er gwaethaf ymdrechion i fuddsoddi mewn teithio cynaliadwy, rydym ni'n bryderus fod buddsoddiadau cyfalaf eraill y Llywodraeth, fel mewn heolydd, yn tansilio'r cynnydd sy'n digwydd mewn lleihau carbon.

Rwy'n galw ar y Llywodraeth, o hyn ymlaen, i ddadansoddi'n ffrensig bob agwedd ar ei gwariant, yn enwedig gwariant cyfalaf, yn nhelerau effaith carbon, a chyhoeddi manylion ar effaith gyffredinol carbon yn eu cyllideb.

Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o graffu ar gyllideb ddrafft 2020/21

1) Ymagwedd gyffredinol tuag at fuddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd

- Beth yw'r newidiadau allweddol yng nghyllideb ddrafft 2020-21 sy'n adlewyrchu'r datganiad am yr argyfwng hinsawdd?
- Pa ddyraniadau allweddol yn y gyllideb sy'n dangos fod Llywodraeth Cymru'n ystyried o ddifrif yr angen i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd ar y raddfa a'r cyflymder sydd ei angen?

2) Deall effaith carbon sy'n deillio o ddyraniadau'r gyllideb

- Sut ydych chi'n asesu gwariant cyfredol ar ddatgarboneiddio a pha ddyraniadau sy'n ofynnol dros y 5,10, 20 mlynedd nesaf i gyflawni ein targedau statudol
- Sut ydych chi'n asesu effaith carbon y penderfyniadau ar fuddsoddiadau mawr i sicrhau fod gwariant cyfalaf yn unol â thargedau lleihau allyriadau?

3) Datgarboneiddio trafndiaeth

- A fydd dyraniadau cyllidebol cyfredol yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed ar gyfer allyriadau'r sector drafndiaeth pan nad ydym yn cyrraedd y targed ar hyn o bryd?
- Sut ydych chi'n asesu effaith carbon y penderfyniadau ar fuddsoddiadau mawr i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn unol â thargedau lleihau allyriadau.
- A yw gwario 63% o'r gyllideb cyfalaf trafndiaeth ar ffyrdd yn cyd-fynd â'r datganiad ar yr argyfwng hinsawdd?

4) Datgarboneiddio tai

- Ers i'r adroddiad "Datgarboneiddio Cartrefi" gael ei gyhoeddi yng Ngorffennaf pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i sicrhau cyllid ar gyfer ôl-osod cartrefi Cymru a pha ymrwymadau sy'n bodoli yng nghyllideb 2020-21?

* Bu gostyngiad o 3% yn allyriadau'r sector trafndiaeth ers 1990; y targedau yw gostyngiad o 14% erbyn 2020 a gostyngiad o 43% erbyn 2030 o'i gymharu â gwaelodlin 1990.

Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol

Mae atal yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n bwysig fod symudiad mewn buddsoddiad o ddulliau adweithiol i rhai ataliol, i atal problemau rhag digwydd yn ogystal â'u hatal rhag mynd yn waeth.

Llynedd croesawais y diffiniad o atal a gynhwysir yn naratif y gyllideb.

Atal yw gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r deilliannau gorau posib, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoliadau i'w cyfrannu. Wrth dorri'r cyfan i lawr i bedwar lefel, gall pob lefel leihau'r galw ar gyfer y nesaf:

- Atal cynradd (AC) – adeiladu gwytnwch -- creu'r amodau ble nad yw problemau'n codi yn y dyfodol, Dull cyffredinol o fynd ati.
- Atal eilaidd (AE) – Targedu gweithredu i gyfeiriad meysydd ble mae risg uchel yn bodoli ble gallai problem ddigwydd. Dull a dargedwyd, sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol*.
- Atal trydyddol (AT) – Ymyrryd unwaith y mae problem yn bodoli, i'w hatal rhag gwaethygu ac i'w rhwystro rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull ymyrrol o fynd ati.
- Gwario aciwt (GA) – Gwario, sy'n gweithredu er mwyn rheoli effaith sefyllfa negyddol iawn, ond sy'n gwneud fawr ddim neu ddim oll i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull adferol o fynd ati

* cyffredinoliaeth gynyddol yw'r penderfyniad i ddarparu cefnogaeth i bawb, gan roi llais a buddiant breintiedig i bawb a phopeth ynddo, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gefnogaeth gan y bobl neu'r meysydd hynny sydd ag anghenion uwch.

Ffynhonnell: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 Cynigion manwl

Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol

Fodd bynnag, teimlais mai cyfyngedig iawn oedd cymhwysiad y diffiniad llynedd, felly nodais bedwar argymhellad ar atal yn y cyngor a gyhoeddais ar gyfer y Llywodraeth yn Rhagfyr 2018.

Argymhellad: Dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso'r diffiniad o atal ym mhob gwariant, mewn dull systematig a chyhyrog, gan ddiffinio'n glir yr hyn y maent yn ceisio'i atal a dangos gweledigaeth glir drwy wario ar weithredu ar sail tystiolaeth ar draws y Llywodraeth. Dylent ystyried gweithio gyda sefydliadau ag arbenigedd yn y maes i sicrhau bod eu hymagwedd yn effeithiol.

Argymhellad: Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i wasanaethau cyhoeddus eraill (yn arbennig llywodraeth leol a byrddau iechyd) i gymhwyso'r diffiniad o atal i'w gwariant, i adnabod cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddi mewn atal sylfaenol ac eilaidd.

Argymhellad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth yw gwell cytbwysedd mewn gwariant mewn perthynas ag atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Argymhellad: Gan gadw mewn golwg argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymhwyso'r camau a osodwyd gan adroddiad Comisiwn Polisi Iechyd Meddwl 'Investing in a Resilient Generation: Keys to a Mentally Prosperous Nation' yn fewnol, yn arbennig mewn perthynas â pha ran o'r Llywodraeth sy'n arwain yn strategol wrth sicrhau bod yna ymagwedd system gyfan tuag at atal.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi gwneud argymhellion perthnasol yn eu hadroddiad ar gyllideb y llynedd:

Argymhellad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gall unrhyw gyllid ychwanegol yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd gael eu targedu tuag at atal, a dylent ystyried sefydlu trefniadau partneriaeth o amgylch unrhyw gyllid o'r fath.

Argymhellad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cadw llygad barcud yn gyson ar y diffiniad o wariant ataliol, yn cynnwys ymgysylltiad egniol â rhanddeiliaid a'r Pwyllgor hwn.

Argymhellad 15: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i ymagwedd integredig ar draws Llywodraeth parthed gwariant ataliol, trawsadrannol, ac aml-flwyddyn.

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Prin yw'r dystiolaeth fod y Llywodraeth wedi ceisio cymhwyso'r diffiniad o atal ar draws gwariant mewn modd systematig a chyhyrog.

Mae naratif drafft y gyllideb yn cynnwys mwy o gyfeiriadau at atal na chyllidebau blaenorol, yn enwedig mewn perthynas â buddsoddi mewn rhaglenni sy'n cynyddu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael â thlodi.

Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfeiriadau sydd yn y naratif at y mathau o atal sydd yn cael eu hariannu - rwy'n credu bod hwn yn gyfle a gollwyd i adrannau'r Llywodraeth ar y cyd i ddeall yr hyn y maent yn ceisio ei atal a'r cydbwysedd gorau o wariant i gyflawni hyn.


Mewn cydnabyddiaeth o raddfa'r her o ymgorffori ymagweddau ataliol, cynghorais y Llywodraeth i weithio gyda sefydliadau ag arbenigedd yn y maes hwn – nid ydynt wedi gwneud hynny. Rwyf wedi darparu adnoddau i Gyllid Cymdeithasol i'w galluogi i weithio gyda'r Llywodraeth, yn arbennig mewn perthynas ag archwilio prosiect peilot Bond Effaith Cymdeithasol (fel y caiff ei nodi ar dud 26 y gyllideb).

“Mae sefydliadau GIG Cymru'n cefnogi ymagwedd a fydd yn amddiffyn cyllid ymhellach ar gyfer mesurau ataliol, sy'n cydnabod pwysigrwydd gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy.”

► Cydffederasiwn y GIG
- Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Prin yw'r dystiolaeth fod y Llywodraeth yn ystyried beth yw natur gwell cydbwysedd gwariant mewn perthynas ag atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n diffinio'n glir yr hyn y maent yn ceisio'i atal gan ddangos gweledigaeth glir drwy wario ar gamau gweithredu ar sail tystiolaeth.

Rwyf wedi ysgrifennu ddwywaith at Weinidogion, ac wedi cwrdd â nifer o Weinidogion, gan ofyn nifer o gwestiynau penodol am y modd y maent wedi cymhwyso'r diffiniad o atal i'w portffolios ac mae'r atebion a dderbyniais wedi bod yn enghreifftiau cyffredinol o'r modd y mae meysydd polisi'n adlewyrchu'r Ddeddf LICD.



Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

“Fodd bynnag, mae’n anodd dadgyfuno gwariant ataliol (oherwydd nad oes eto ddiffiniad o lefel gwasanaeth cyffredin, a gellir ymarfer ymyrraeth gynnar ar draws y sbectwm angen); ond rydym yn cytuno bod costau ychwanegol/caledi yn debygol iawn o fod wedi arwain at doriadau mewn termau real mewn gwariant ataliol yn cynnwys y meysydd hynny a restrir yn nogfen y Pwyllgor’.

► Cyngor Castell-nedd Port Talbot - ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Mae yna beth tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru’n gofyn i wasanaethau cyhoeddus eraill i gymhwyso’r diffiniad i’w gwariant - rwyf wedi gweld enghreifftiau mewn perthynas â’r GIG a Thai.

Fodd bynnag, mae yna lawer mwy o gyfle i’r diffiniad gael ei ystyried mewn dull ystyrlon ar draws gwasanaethau, gyda Llywodraeth Leol yn fwllch penodol.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru’n ystyried ymagwedd ‘llywodraeth gyfan’ tuag at atal, sef yr hyn a argymhellais. Mae rhan o’u ‘cynllun gwella cyllideb’ sy’n ymdrin ag atal yn gadarnhaol, ond yn dibynnu ar y Trysorlys i sbarduno cynnydd – nid yw hon yn ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag ymgorffori ymagweddu ataliol.

Atal Digartrefedd

Er mwyn deall yn well i ba raddau y mae sgysiau’n digwydd ar draws y Llywodraeth mewn perthynas ag atal rwyf wedi ffocysu ar atal digartrefedd.

Tra mod i wedi darganfod fod sgysiau’n digwydd ar draws y Llywodraeth nid yw hyn yn glir yn naratif y gyllideb, ac mae’r sgysiau hyn i raddau helaeth yn ffocysu ar atal trydyddol gyda dim ond ychydig o ystyriaeth yn cael ei roi i gyfleoedd cydweithredol ar gyfer atal sylfaenol ac eilaidd. Credaf fod yna gyfleoedd pellach ar gyfer alinio cyllid ac ystyried a yw’n cyflawni’r canlyniadau gorau yn nhermau atal digartrefedd. Rwy’n gweithio’n glos gyda’r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a gadeirir gan Jon Sparkes o Crisis, ar hyn.

► Gellir gweld gwybodaeth am waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar [https://llyw.cymru/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd?](https://llyw.cymru/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd?_ga=2.96013468.1885231479.1576761731-2094061263.1576512191)
_ga=2.96013468.1885231479.1576761731-2094061263.1576512191

Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o graffu ar gyllideb ddrafft 2020/21

“Roedd yn siomedig bod Ysgrifennydd y Cabinet pan ofynnwyd iddo am enghreifftiau o atal sylfaenol, eilaidd neu drydyddol o fewn ei gyllideb, wedi methu rhoi un enghraifft.”

► Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol, craffu ar gyllideb ddrafft 2019-20

1) Ymrwymiad cyffredinol i ymgorffori atal (ffocws ar ganlyniadau)

- Pa rôl sy'n cael ei chwarae gan eich adran yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth gyffredinol o symud tuag at ymagweddau ataliol, a pha gyfraniad ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?
- Sut y gwyddoch eich bod yn buddsoddi yn y rhaglenni a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf?

2) Deall cydbwysedd gwariant mewn perthynas ag atal

- Sut rydych chi wedi defnyddio'r diffiniad o atal: pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r gyfran o'ch buddsoddiad sydd mewn atal sylfaenol, eilaidd, trydyddol, neu yng ngofod aciwt eich buddsoddiad?
- Ydych chi wedi gwneud newidiadau i'r modd yr ydych yn buddsoddi ar gyfer cyllideb 2020-21?

3) Annog cyrff eraill i ddefnyddio'r diffiniad o atal

- Sut rydych chi'n annog cyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio'r diffiniad o atal?

4) Ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at atal

- Sut ydych chi'n sicrhau y gellir mabwysiadu ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at atal, gydag arweiniad clir ac atebolrwydd am gynnydd?

Aseu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y gyllideb

Yn fy nghyngor i'r Llywodraeth pwysleisiais fod angen iddi fod yn haws i randdeiliaid ddeall beth sy'n newid mewn perthynas â'r gyllideb, a deall beth yw nodweddion newidiadau syml a newidiadau mwy trawsffurfiol.


Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda fy swyddfa i ddatblygu 'Diogelwyr Taith' i ddisgrifio beth yw ystyr 'da' yng nghyd-destun y modd y mae'r broses gyllidebol yn esblygu dros o leiaf y degawd nesaf.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n well sut mae'r chwe maes blaenoriaeth yn sbarduno gwahanol benderfyniadau drwy ystyried tueddiadau a senarios y dyfodol, gan gymhwysu'n holistig y diffiniad o atal a defnyddio cyfleoedd i wneud buddsoddiadau cydweithredol ar draws y system.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi gwneud argymhellion tebyg:

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut fydd y 'Diogelwr Taith' yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyflymu eu gweithrediad ac integreiddiad o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn argymhell bod y defnydd ohono'n cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb ddrafft 2020-21.

Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ddangos sut mae'n gwneud y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o benderfyniadau a wneir yn eu sefydliad drwyddi draw, gan ymgysylltu'r gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 1019-20 8 â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r graddau mwyaf posibl, er mwyn cyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen o fewn Llywodraeth Cymru."



▶ Mae'r diagram yn sylfaen i fy mhrosiect 'Y Gallu i Greu.' Gallwch ddod o hyd i esiamplau ar y gwefan: <https://futuregenerations.wales/cy/the-art-of-the-possible/>

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru


Dewisodd Llywodraeth Cymru wneud y gwaith hwn eu hunain, gyda ffocws ar ymagwedd a fydd yn defnyddio iddynt hwy - gwnaethant fframio hwn fel 'Cynllun Gwella Cyllideb'. Rwy'n falch eu bod wedi cyhoeddi drafft o'r Cynllun hwn fel rhan o gyllideb ddrafft 2020-21

Mae'r Cynllun yn gychwyn defnyddiol ar gyfer deall beth allai natur cynnydd mewn perthynas â'r broses gyllidebol fod, ac rwy'n croesawu'r ffaith ei fod yn edrych yn eang ar draws Trysorlys Cymru. Deallaf fod swyddogion wedi ymgysylltu'n fewnol o fewn y Llywodraeth ar y Cynllun hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut y byddant yn ystyried sylwadau wrth iddynt ymgysylltu'n allanol.

Er bod y Cynllun yn ddechrau da, credaf fod nifer o feysydd lle gellir cryfhau Cynllun Gwella'r Gyllideb i adlewyrchu'n well uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i alluogi rhanddeiliaid i ddeall cynnydd yn well - mae'r rhain yn cynnwys:

1) Codi lefel uchelgais a gweledigaeth

I adlewyrchu natur uchelgeisiol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r Cynllun gynnwys camau mwy uchelgeisiol a thrawsnewidiol o fewn ffrâm amser tymor hwy, yn cynnwys ystyriaeth o beth allai nodweddion cyllideb sy'n ymgorffori'r Ddeddf yn llwyr fod.



▶ Gellir gweld Cynllun Gwella Cyllideb Llywodraeth Cymru yma:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/cynllun-gwellar-gyllideb.pdf>

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

2) Galluogi rhanddeiliaid i ddal i gyfrif ganlyniadau gwariant, ac olrhain pa mor drawsffurfiol yw'r newid

Dylai'r Cynllun alluogi rhanddeiliaid i olrhain y modd y mae penderfyniadau gwariant yn newid yn ogystal ag olrhain y modd y mae'r broses gyllidebol yn newid.

Gallai Llywodraeth Cymru ddysgu oddi wrth Gyllid Llesiant Seland Newydd yn hyn o beth: yn gyntaf, mae amcanion llesiant yn cael eu dethol, ac wedyn mae grwpiau traws-lywodraeth yn gwneud cynigion gwariant yn

erbyn yr amcanion hyn (ochr yn ochr ag asesiadau effaith). Mae Llywodraeth Seland Newydd yn dethol cynigion ac wedyn yn cyhoeddi'r modd y mae penderfyniadau gwariant wedi newid fel canlyniad i'r broses hon.

Dolenni i Gyllideb

Llesiant Seland Newydd:

▶ (Cyllideb Mai 2019)
https://treasury.govt.nz/sites/default/files/2019-06/b19-wellbeing-budget_1.pdf

▶ (Canllaw)
<https://treasury.govt.nz/sites/default/files/2018-12/budget19-guidance.pdf>

3) Ymgorffori ymhellach elfennau allweddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â'r 5 dull o weithio

Tra bo'r Cynllun yn ddefnyddiol ar gyfer deall cynnydd, gallai fynd ymhellach wrth adlewyrchu elfennau allweddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig wrth fframio sut mae'r gyllideb yn galluogi ffocysu ar amcanion llesiant y Llywodraeth, a thalu mwy o sylw i'r pum dull o weithio (yn arbennig 'hirdymor' ac 'atal').

Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2020-21

1. Beth yw lefel eich gweledigaeth a'ch uchelgais gyda'r gwaith hwn? A oes gennych syniad clir o nodweddion cyllideb sy'n ymgorffori'n llwyr y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?
2. Sut fydd y Cynllun hwn yn galluogi rhanddeiliaid i ddeall yr hyn sy'n newid o flwyddyn i flwyddyn, yn nhermau proses ac yn nhermau gwariant?

Cymryd camau pellach tuag at ymagwedd tymor hir

Yn y cyngor a gyhoeddais ar gyfer y Llywodraeth, fe wneuthum gynnwys dau argymhelliad oedd yn berthnasol i fabwysiad y Llywodraeth o ymagwedd tymor hwy, a fyddai yn ei dro yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.

Argymhelliad: Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos sut y maent yn cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ymateb i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2019.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Adolygiad o Wariant fel cyfle i archwilio dewisiadau ar gyfer ymrwymadau gwariant aml-flwyddyn i gyrrff cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu heriau sylweddol wrth gynllunio cyllideb y flwyddyn hon, oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, cyddestun gwleidyddol y DU a'r datganiad am Rownd Gwariant un flwyddyn yn hytrach nag Adolygiad o Wariant cyflawn.

Rwy'n gwerthfawrogi bod yr heriau hyn wedi gwneud mabwysiadu ymagwedd tymor hwy yn fwy anodd i'r Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Am y rheswm hwnnw ni fyddaf yn ffocysu ar y maes hwn wrth graffu ar gyllid ddrafft 2020-21.

Fodd bynnag rwyf yn disgwyl gweld bod peth cynnydd wedi cael ei wneud ar y paratodau mewnol gofynnol. Byddaf yn parhau i fonitro'r maes hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar y modd y mae Llywodraeth Cymru'n ymateb i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU sydd i fod i ddigwydd y flwyddyn nesaf.



YSGOGWR NEWID

(CYLLID, ATAL, IECHYD)

Cathy Madge
07974 895160
cathy.madge@futuregenerations.wales
@cathy_madge



YSGOGWR NEWID

(DATGARBONEIDDIO, CAFFAEL)

Eurgain Powell
029 2167 7400
eurgain.powell@futuregenerations.wales
@EurgainHPowell



@futuregenymru






/futuregenymru

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith ewch
i'n gwefan...

www.futuregenerations.wales/cy

Tudalen y pecyn 103





Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JJ/03366/19

John Griffiths
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

10 Rhagfyr 2019

Annwyl John,

Yn fuan byddaf yn gosod Offeryn Statudol gerbron y Cynulliad, sef *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020* sy'n cyflwyno Rheoliadau newydd a fydd yn rheoli'r canfasiad etholiadol blynyddol o 2020 ymlaen. Bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Lluniwyd y Rheoliadau newydd o ganlyniad i raglen waith ar y cyd â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU i foderneiddio a diwygio'r canfasiad blynyddol. Bydd y Rheoliadau yn cadw elfennau cadarn y canfasiad cyfredol ond byddant yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol deilwra'r canfasiad ar gyfer aelwydydd yn eu hardal.

Gan fod y cyfrifoldeb am faterion etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau'r Cynulliad bellach wedi ei ddatganoli, bu'n rhaid cyflwyno deddfwriaeth ym mhob un o'r tair gweinyddiaeth er mwyn diwygio'r canfasiad. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gwneud hynny drwy gyflwyno *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) 2019* a wnaed ar 4 Tachwedd 2019.

Cyflwynir yr Offeryn Statudol i ategu'r gyfres o ddiwygiadau etholiadol y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried eisoes fel y nodwyd yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â gwella cyfraddau cofrestru etholwyr; cofrestru heb wneud cais a'r Gronfa Ddata o Wybodaeth Cofrestru Etholiadol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 112
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ddarpariaeth a wneir yn yr Offeryn Statudol hefyd yn gyson ag estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a nodwyd yn y Bil ac yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a basiwyd yn y Senedd ar 27 Tachwedd.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Eitem 4.2

Papur 5 - Llythyr at Lywodraeth Cymru
Paper 5 - Letter to Welsh Government

Hannah Blythyn

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

16 Rhagfyr 2019

Budd-daliadau yng Nghymru

Annwyl Hannah,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Rhagfyr, yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar ddatganoli budd-daliadau.

Rydym yn deall bod angen i chi aros am adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru cyn ymateb yn fanylach i rai o argymhellion y Pwyllgor. O ganlyniad, rydym wedi gohirio ein dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Ionawr er mwyn aros tan y bydd yr ymateb llawn wedi dod i law. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi amserlen i ni o ran pryd y byddwch yn anfon yr ymateb wedi'i ddiweddarau.

Nodwn eich bod yn dweud yn eich ymateb fod y Llywodraeth "eisoes wedi dechrau amlinellu rhai o egwyddorion craidd sy'n cynnwys tosturi, tegwch, urddas a dealltwriaeth, gyda'r nod o fabwysiadu dull mwy dyngar sy'n canolbwyntio ar y dinesydd". A allwch egluro a yw hyn o fewn cyd-destun y setliad datganoli cyfredol, neu ddatganoli pellach? Credwn fod ein holl argymhellion yn cynnig camau cadarnhaol, pendant a allai helpu i gyflawni'r newid hwn.

Hoffem hefyd dynnu sylw at rai cwestiynau sy'n codi yn sgil eich ymateb.

Argymhelliad 1

Rydych yn tynnu sylw at yr adolygiad trawslywodraethol parhaus o raglenni a gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tloidi. A allwch egluro a yw'r

adolygiad hwn yn cynnwys pawb sy'n byw mewn tlodi (er enghraifft cartrefi sengl)? Os na, sut y byddwch chi'n ystyried effeithiolrwydd rhaglenni a gwasanaethau i'r rhai sy'n byw mewn tlodi nad yw'r adolygiad yn eu cwmpasu? Pryd fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau?

Er ei fod yn llywio datblygiad system fudd-daliadau i Gymru o bosibl, nodwn nad yw'r adolygiad ynddo'i hun yn mynd i'r afael â'r hyn y mae'r argymhelliad hwn yn galw amdano. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd wrth weithredu'r argymhelliad hwn, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 2

Rydym yn croesawu'r wybodaeth a roddwyd, a'i bod eisoes ar gael i'r cyhoedd. Ar ôl clywed tystiolaeth gan randdeiliaid am sut y mae hi'n anodd olrhain gwariant ar fudd-daliadau datganoledig, ac felly effeithiolrwydd penderfyniadau polisi, roeddem am i'r holl wybodaeth hon gael ei dwyn ynghyd mewn un man hawdd ei gyrraedd. A wnewch chi ystyried gwneud hyn?

Argymhelliad 3

Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad, roedd hi'n aneglur ar wefan Llywodraeth Cymru y gellid defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol i gwmpasu'r cyfnod aros o bum wythnos ar gyfer y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf. Nid yw'r meini prawf a restrir ar y wefan, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ac ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn (12 Rhagfyr), yn nodi y gellir defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol i gefnogi pobl sy'n profi caledi o ganlyniad i'r pum wythnos o aros. Nid oes llwybr penodol i bobl gael mynediad at y gronfa hon os ydynt yn profi caledi o ganlyniad i'r pum wythnos o aros, ac rydym yn pryderu bod hynny'n rhwystr posibl. A fyddwch chi'n diwygio'r wefan ac unrhyw ganllawiau perthnasol i sicrhau ei bod yn amlwg i'r bobl y gallai fod angen iddynt ddefnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol a'r rheini sy'n darparu cyngor a chymorth iddynt?

Argymhelliad 4

A allwch chi roi gwybodaeth fwy penodol am sut yr ydych chi'n bwriadu "parhau i hyrwyddo a chynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau lles datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli"? Heblaw am y Gronfa Cyngor Strategol, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â hyn?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



John

John Griffiths

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

17 Rhagfyr 2019

Annwyl Tracey

Llywodraethu a rheolaeth ariannol mewn cyngorau cymuned

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Tachwedd 2019.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y nifer cynyddol o gynghorau tref a chynghorau cymuned nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion statudol o ran eu llywodraethu a'u rheolaeth ariannol. Mae sawl mater yn codi o'r sesiwn honno yr hoffwn eu nodi.

Yn gyntaf, ym mis Mai 2019 ac yn eich papur diweddar, gwnaethoch rannu â'r Pwyllgor fanylion ynghylch y camau gweithredu uniongyrchol yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi gwelliannau ar draws y sector. Gwnaethoch hefyd nodi meysydd a fyddai'n destun ystyriaeth bellach cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn, a hynny drwy ymgysylltu â'r sector a rhanddeiliaid eraill. Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r broses o gefnogi gwelliannau, ac rwy'n cydnabod yr heriau ymarferol sy'n bodoli mewn sector sydd mor fawr ac mor amrywiol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, rydym yn parhau i deimlo bod diffyg eglurder ynghylch graddfa'r camau gweithredu a gymerwyd mewn rhai o'r meysydd a nodwyd fel meysydd gweithredu uniongyrchol, ac ynghylch statws cyfredol y meysydd a fyddai'n destun ystyriaeth bellach. Er enghraifft, gwnaethoch ddisgrifio camau gweithredu uniongyrchol yn gysylltiedig ag annog mwy o bobl i

sefyll mewn etholiadau. Fodd bynnag, roedd eich tystiolaeth lafar yn awgrymu bod hwn yn fater a fyddai'n cael mwy o sylw gweithredol rhywbryd yn y dyfodol.

Er mwyn i'r Pwyllgor gael rhywfaint o sicrwydd ychwanegol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu crynodeb lefel uchel yn gynnar yn y flwyddyn newydd sy'n egluro statws cyfredol pob un o'r camau gweithredu uniongyrchol a'r pwyntiau a nodwyd ar gyfer ystyriaeth bellach yn eich llythyr ym mis Mai 2019. O ran y meysydd a nodwyd ar gyfer ystyriaeth bellach, byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r broses o archwilio'r materion hyn cyn diwedd tymor cyfredol y Cynulliad, hyd yn oed os oes cynnydd cyfyngedig eisoes wedi'i wneud.

Fel rhan o'ch tystiolaeth, dywedasoeh wrthym hefyd am y dulliau sydd ar gael i'r sefydliadau hyn gael gafael ar yr holl wybodaeth a'r arfer da sydd ar gael ac, wrth gwrs, mae gan y sector ei gorff ambarél, sef Un Llais Cymru, i'w gynorthwyo gyda'r materion hyn.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno pwysleisio bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r modd y caiff arfer da ei rannu, gan bwysleisio bod angen i arloesedd fod o fewn ffiniau pwerau cyngorau tref a chynghorau cymuned ac yn amodol ar yr hyn a ganiateir yn y ddeddfwriaeth sy'n gymwys iddynt.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ynghylch y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Rwy'n ymwybodol bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn nodi nifer o bryderon yn hynny o beth, a bod staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Ochr yn ochr â'r cynigion ynghylch y pŵer cymhwysedd, gwnaethoch ddisgrifio cynlluniau ar gyfer gofynion adrodd blynyddol eraill. Hoffwn nodi bod hanes y sector o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol presennol yn awgrymu y bydd heriau'n codi o ran sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni mewn ffordd wirioneddol ystyrlon, a hynny yng nghyd-destun sicrhau'r canlyniadau a fwriedir, sef gwella tryloywder a gwella'r broses o ymgysylltu â'r gymuned.

Yn olaf, gwnaethoch gynnig ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd ynghylch y niferoedd sy'n manteisio ar y mentrau hyfforddi gwahanol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cefnogi (gan gynnwys y cynlluniau e-ddysgu a'r cynlluniau bwrsariaeth). Yn achos y cynlluniau bwrsariaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech



ddarparu dadansoddiad o'r niferoedd sy'n manteisio arnynt ar draws cyngorau sydd â throsiant cyllidebol gwahanol (y rhai y mae eu trosiant yn llai na £40k, a'r rhai y mae eu trosiant rhwng £40k a £100k).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan fod y Pwyllgor hwnnw'n craffu ar y Bil a gyflwynwyd yn ddiweddar, a chan ein bod am dynnu ei sylw at y materion a gododd yn ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar ac yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is fluid and cursive, with a long horizontal stroke at the end.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

cc: John Griffiths AC – Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau



Eitem 4.4

John Griffiths AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau

18 Rhagfyr 2019

Annwyl John

Ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i dlodi tanwydd

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') yn cynnal ymchwiliad i dlodi tanwydd. O ystyried bod y maes polisi hwn hefyd yn berthnasol i gylch gwaith eich Pwyllgor chi, roeddwn yn meddwl y byddai o gymorth pe byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein cynlluniau.

Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

- graddfa ac effeithiau tlodi tanwydd yng Nghymru;
- pam na lwyddodd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei tharged statudol i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018;
- sut mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru hyd yma wedi helpu i leihau tlodi tanwydd - yn arbennig, effaith y Rhaglen Cartrefi Clyd (sy'n cynnwys Arbed a Nyth) a Safon Ansawdd Tai Cymru;
- sut y dylai strategaeth olynol Llywodraeth Cymru i'r strategaeth tlodi tanwydd (a oedd i fod yn destun ymgynghoriad yn nhymor yr hydref 2019) fod yn wahanol i'w strategaeth yn 2010; a

- pha gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod cartrefi newydd, yn ogystal â chartrefi presennol, yn effeithlon iawn o ran ynni i'w hatal rhag achosi tlodi tanwydd yn y dyfodol.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal nifer o sesiynau tystiolaeth yn gynnar yn nhymor y gwanwyn. Byddant yn cynnwys sesiwn gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ar 13 Chwefror 2020.

Wrth gwrs, byddaf yn sicrhau bod copi o'n hadroddiad yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bydd ar gael.

Yn y cyfamser, os hoffech gael unrhyw fanylion pellach am yr ymchwiliad, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

19 Rhagfyr 2019

Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - Gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019

Diolch am eich llythyr ar 5 Rhagfyr, yn dilyn fy ymweliad â'r Pwyllgor ar 27 Tachwedd i roi tystiolaeth ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Cytunais i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- manylion unrhyw ddadansoddiad sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru neu yn rhywle arall mewn perthynas â chynlluniau deisebau, y cynnydd posib yn nefnydd y cyhoedd ohonynt, a goblygiadau cost hirdymor rhedeg cynllun i'r prif gynghorau
- yr amserlen ar gyfer 'cydgynhyrchu'r' canllawiau a'r trefniadau rheoleiddio
- enghreifftiau neu dystiolaeth o drefniadau hunanasesu effeithiol sydd ar waith ar hyn o bryd o amgylch y byd.

Yn Atodiad 1 ceir gwybodaeth am y cynlluniau deisebau sydd ar waith yng Nghymru. Fel mae'r dystiolaeth yn dangos, mae gan lawer o brif gynghorau gynlluniau deisebau ar waith yn barod, er mai dim ond un sy'n gweithredu'n electronig ar hyn o bryd. Nod y darpariaethau yn y Bil yw taro cydbwysedd rhwng galluogi pobl i dynnu mater i sylw'r cyngor mewn ffordd fwy hygyrch na phleidlais gymunedol heb wneud y cynllun yn rhy gostus i'w redeg. Nid wyf yn credu bod angen y ddau gan mai'r un yw'r canlyniad, a dyma'r arfer hefyd yn y Cynulliad. Fy mwriad yw y bydd unrhyw ganllawiau ar gynnal cynllun deisebau yn cael eu cydgynhyrchu er mwyn dysgu o brofiad y cynghorau sydd â chynlluniau o'r fath ar waith yn barod. Mae amcangyfrif o'r costau wedi'i gynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Fel y gofynnwyd, byddaf yn darparu amserlen i'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd ar gydgynhyrchu'r canllawiau perthnasol a'r trefniadau rheoleiddio a grëwyd gan y Bil.

Fel y crybwyllwyd yn y Pwyllgor, lle mae'n briodol byddwn yn ceisio cydgynhyrchu'r canllawiau, ac yn ogystal â gweithio gyda CLILC byddwn yn ymgysylltu â'r trydydd sector drwy'r rhwydweithiau sydd ar gael. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r ffordd orau o ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau ehangach, a byddwn yn ystyried y manteision y

gellir eu gwireddu drwy gynnwys gweithgareddau fel grwpiau ffocws wrth i ni benderfynu'n derfynol ar sut i fynd ati i ddatblygu'r canllawiau. Byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor ar y mater hwn.

Nid oes gennym enghreifftiau na thystiolaeth o unrhyw drefniadau hunanasesu sydd ar waith ar hyn o bryd o amgylch y byd. Yn Atodiad 2 ceir mwy o fanylion am y sail resymegol sydd wrth wraidd y dull arfaethedig o ymdrin â'r darpariaethau yn ymwneud â pherfformiad a llywodraethu yn y Bil.

Gan droi at eich llythyr, mewn perthynas â chwestiynau'r Pwyllgor am oblygiadau ariannol y Bil, mae'r agenda ehangach i ddiwygio'r drefn etholiadol yn gymhleth ac yn cyffwrdd â nifer o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth gynradd ac is-ddeddfwriaeth. Tra mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion cymwys o dramor, cyfyngedig yw'r costau gweinyddol sy'n uniongyrchol gysylltiedig a'r Bil. Mae mwyafrif y newidiadau i'r systemau rheoli etholiadol a'r prosesau cofrestru yn cael eu gwneud o ganlyniad i Fil y Senedd ac Etholiadau (Cymru) ynghyd â'r newidiadau yn sgil hynny i Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru) (Canfasiad Blynyddol) (Gwelliant) 2000. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi y bydd y datblygiad sylweddol hwn mewn cynhwysiant democrataidd yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i awdurdodau lleol o ran cofrestru etholwyr newydd a hyrwyddo'r hawl i bleidleisio ymysg y rhai sydd newydd gael pleidlais. I'r perwyl hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau isafswm o £1m ym mlwyddyn ariannol 2020/21 i helpu timau gweinyddu etholiadol i roi'r newidiadau hyn ar waith.

Fel rhan o'm trafodaethau gydag awdurdodau lleol ynglŷn â gweithredu'r Bil, mae fy swyddogion yn archwilio'r potensial i dreialu presenoldeb o bell ac nid wyf yn rhagweld cychwyn y darpariaethau hyn nes y byddaf yn hyderus fod y cynghorau'n barod i gyflawni'r gofynion. Rwy'n hapus i ystyried yr angen am gymorth ariannol.

Gallaf gadarnhau nad wyf yn bwriadu darparu cymhellion ariannol i brif gynghorau sy'n dymuno newid eu system bleidleisio. Mater i'r cyngor dan sylw fydd pwysu a mesur yr achos o blaid gwneud newid. Pe bai cyngor yn penderfynu newid ei system bleidleisio, byddwn yn ystyried p'un a fyddai modd darparu cyllid, er enghraifft i dalu am raglenni cyfrif electronig a pheiriannau pe bai Llywodraeth Cymru yn gorfodi trefn gyfrif electronig.

Edrychaf ymlaen at ddychwelyd i'r Pwyllgor ar 29 Ionawr i roi rhagor o dystiolaeth.

Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 123

Atodiad 1: Tystiolaeth o'r defnydd o ddeisebau mewn prif gynghorau yng Nghymru

Yng Nghymru, mae saith cyngor yn darparu ar gyfer deisebau ar hyn o bryd, er mai dim ond un (Cyngor Powys) sy'n derbyn e-ddeisebau ar hyn o bryd.

Cyngor	Darpariaeth ar gyfer Deisebau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	<p>Mae gan y Cyngor Brothocol Deisebau y gellir ei ddefnyddio pan fydd amgylchiadau lle mae'r cyhoedd yn teimlo'n gryf am fater a'u bod am gyfleu'u barn yn uniongyrchol i'r Cyngor drwy ddeiseb.</p> <p>Cyn cyflwyno deiseb, dylech holi eich cynghorydd lleol neu'r Cyngor yn gyntaf i weld a ydynt eisoes yn gweithredu ar eich pryderon ac i sicrhau mai'r Cyngor yw'r corff mwyaf priodol i dderbyn eich deiseb. Weithiau, mae'n gallu bod yn fwy priodol i'ch deiseb gael ei hystyried gan gorff cyhoeddus arall.</p> <p>Gallwch anfon deisebau'n electronig at:- committee.services@blaenau-gwent.gov.uk</p> <p>neu gyflwyno deisebau i:- Pennaeth Adran y Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent</p> <p>neu gysylltu â Chymorth Busnes - Adran y Gwasanaethau Democrataidd ar 01495 356139 i wneud trefniadau i gyflwyno deiseb.</p>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Dim
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Dim
Cyngor Caerdydd	Mae'r Cyngor yn croesawu deisebau ac rydym yn cydnabod bod deisebau yn un ffordd i bobl roi gwybod i ni am eu pryderon. Gellir

	<p>cyflwyno deisebau i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ac i'r Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu.</p> <p>I gyflwyno eich deiseb mewn Cyngor Llawn, cysylltwch â'ch Cynghorydd Lleol a gall ef ei gyflwyno ar eich rhan. Gydag unrhyw ddeiseb arall, cysylltwch â democraticservices@cardiff.gov.uk</p>
Cyngor Sir Caerfyrddin	<p>Uned y Gwasanaethau Democrataidd sy'n gweinyddu cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a Phwyllgorau'r Cyngor. Mae'n cynhyrchu agendâu cyfarfodydd, yn mynychu cyfarfodydd ac yn cofnodi'r penderfyniadau a wneir. Mae hefyd yn rhoi cyngor i Gynghorwyr, swyddogion a'r cyhoedd ar y gyfraith a sut mae cynnal cyfarfodydd. Mae'n darparu cymorth gweinyddol i'r 74 Cynghorydd. Gall roi cyngor i chi ynglŷn â'ch hawl i fynychu cyfarfodydd a sut mae mynd ati i gyflwyno deisebau neu gall roi cyngor ynghylch unrhyw gwestiwn sydd gennych am sut mae'r Cyngor a'i Bwyllgorau yn gweithio.</p>
Cyngor Sir Ceredigion	Dim
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	<p>Dylai unrhyw ddeiseb bapur gynnwys teitl byr a datganiad byr yn dweud beth yw testun y ddeiseb.</p> <p>Dylai'r ddeiseb ddweud yn glir pa gamau y mae'r deisebydd am i'r Cyngor eu cymryd a dylai ddangos y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> •Enw'r deisebydd •Cyfeiriad cyswllt y prif ddeisebydd; y cyfeiriad y dylai unrhyw ohebiaeth ynglŷn â'r ddeiseb gael ei hanfon iddo •Enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n cefnogi'r ddeiseb •Dylai deisebau papur gynnwys llofnod hefyd <p>Rhaid i Ddeisebau Papur gael eu cyflwyno gan Gynghorydd a gellir eu cyflwyno mewn cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet neu Bwyllgor Trosolwg a Chraffu (yn dibynnu ar y pwnc ac ar gyngor Swyddog Monitro'r Cyngor).</p>
Cyngor Sir Ddinbych	Dim

Cyngor Sir y Fflint	Dim
Cyngor Gwynedd	Dim
Cyngor Sir Ynys Môn	Dim
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	<p>Mae'r broses deisebau yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd ddylanwadu'n uniongyrchol ar y broses wleidyddol a chodi pryderon sy'n bwysig iddyn nhw.</p> <p>Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio ym Merthyr Tudful, yn cynnwys y rhai dan 18 oed, lofnodi neu drefnu deiseb. Fodd bynnag, rhaid i berson sy'n llofnodi deiseb fod yn 10 oed o leiaf.</p> <p>Gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno deisebau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> •Materion yn ymwneud â chyfrifoldebau'r Cyngor. •Materion sy'n effeithio ar y Fwrdeistref neu ar gymunedau ym Merthyr Tydfil, cyhyd â bo'r Cyngor mewn sefyllfa i arfer rhyw elfen o ddylanwad. •Unrhyw beth yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal, y gallai unrhyw rai o bartneriaid y Cyngor gyfrannu ato. <p>Bydd y Cyngor yn ymateb i bob deiseb sy'n dod i law. Byddwn mor hyblyg ag y medrwn wrth ddelio â'ch deiseb fel ei bod yn cael ei hystyried yn gyflym ac yn y ffordd fwyaf priodol.</p> <p>Sut mae cyflwyno deiseb?</p> <p>Bydd pob deiseb sy'n cael ei hanfon neu ei chyflwyno i'r cyngor yn cael cydnabyddiaeth gan y cyngor o fewn 14 diwrnod iddi ddod i law. Bydd y gydnabyddiaeth yn dweud beth rydyn ni'n bwriadu'i wneud â'r ddeiseb.</p> <p>Gellir anfon deisebau papur at:</p> <p>Y Gwasanaethau Democrataidd</p>

	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</p> <p>Beth fydd y Cyngor yn ei wneud pan ddaw fy neiseb i law?</p> <p>Byddwn yn cydnabod y ddeiseb o fewn 14 diwrnod ac yn rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi trefnu'r ddeiseb beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud â hi.</p> <p>Beth alla i ei wneud os ydw i'n teimlo nad ydych wedi delio'n briodol â'm deiseb?</p> <p>Os ydych yn teimlo nad ydym wedi delio'n briodol â'ch deiseb, mae gan drefnydd y ddeiseb yr hawl i ofyn i'r Bwrdd Craffu adolygu'r camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd mewn ymateb i'ch deiseb.</p> <p>Bydd y Bwrdd Craffu yn ystyried eich cais o fewn 30 diwrnod iddo ddod i law. Pe bai'r aelodau'n teimlo nad yw'r Cyngor wedi delio'n ddigonol â'ch deiseb, gall ddefnyddio unrhyw bwerau o'i eiddo i ddelio â'r mater.</p> <p>Mae'r pwerau hyn yn cynnwys sefydlu ymchwiliad, gwneud argymhellion i'r bwrdd gweithredol neu drwy i'r mater gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r cyngor llawn.</p>
Cyngor Sir Fynwy	Dim
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Yn ystyried y posibilrwydd o ddeisebau ar-lein
Cyngor Dinas Casnewydd	Dim
Cyngor Sir Penfro	Dim
Cyngor Sir Powys	Gallwch gyrchu at e-Ddeisebau cyfredol a gyflwynwyd i'r Cyngor hwn a'u llofnodi, yn ogystal â gweld gwybodaeth am e-Ddeisebau sydd wedi'u cwblhau yn barod.
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Dim
Dinas a Sir Abertawe	Dim

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	<p>Gall aelodau o'r cyhoedd sy'n byw a/neu'n gweithio yn Nhorfaen a chynrychiolwyr sefydliadau perthnasol sydd wedi'u lleoli yn Nhorfaen ofyn cwestiynau neu gyflwyno deisebau yng nghyfarfodydd y Cyngor.</p> <p>I gael rhagor o wybodaeth am ymwneud y cyhoedd mewn cyfarfodydd yn Nhorfaen, cysylltwch â Thîm y Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau ar 742163 neu 766057.</p>
Cyngor Bro Morgannwg	Dim
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Dolen ar y wefan at we-dudalennau e-ddeisebau'r DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Atodiad 2 - Darpariaethau perfformiad a llywodraethu ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Nod y darpariaethau perfformiad a llywodraethu ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yw sicrhau newid diwylliannol, gyda llywodraeth leol yn cymryd mwy o berchnogaeth dros ei pherfformiad ei hun. Yn y cyd-destun hwn mae hunanasesiadau ac asesiad perfformiad gan banel yn golygu asesiad eang, ar draws y cyngor cyfan, o sut mae cyngor yn cael ei drefnu a'r penderfyniadau strategol y mae'n eu gwneud er mwyn gwireddu'i holl amcanion, nodau a thargedau.

Sail resymegol y drefn weithredu

Cafodd effeithiolrwydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r cysyniad ehangach o asesiadau perfformiad yn y DU ac ar draws Ewrop eu hystyried mewn adroddiad yn 2013, *Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, 2007-2011 (Adroddiad Terfynol: Rhan 2)*¹ a hefyd yn ddiweddarach yn 'Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus'² (Ionawr 2014). Dywedai'r olaf:

'Er mwyn rheoli perfformiad yn effeithiol, rhaid gwneud llawer mwy na mesur yr agweddau cywir ar y gwasanaethau a ddarperir. Rhaid dehongli a defnyddio data perfformiad yn helaeth er mwyn llywio gwelliannau i wasanaethau; neu, fel y nodwyd mewn ymchwil a gomisiynwyd gennym, rhaid cael "[set of] policies, strategies and techniques intended to direct managers' and employees' attention towards the improvement of an organization's performance". Gallai hyn olygu sefydliadau eu hunain yn monitro data er mwyn gweld a oes angen cymryd camau cywiro, fel newid dulliau darparu neu fuddsoddi mwy; rheoleiddwyr a chyrrff craffu yn defnyddio'r data i lywio newid a chefnogi pwysau i newid; neu ddinasyddion yn cael data, sy'n eu helpu i ddeall i ba raddau y maent yn cael yr hyn y maent yn ei haeddu a'i ddisgwyl, ac yn defnyddio hynny i ddwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif.'

Roedd canfyddiad fod y drefn ym Mesur 2009 yn canolbwyntio ar gydymffurfio a bod hynny o bosibl yn gyrru ymddygiad gwrthnysig a oedd wedi'i seilio ar gyflawni dangosyddion yn hytrach na rhoi ystyriaeth ehangach i'r materion, y prosesau ac, yn bwysicach fyth, y bobl sydd y tu ôl i'r ffigurau hynny.

Yn 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru' (2014), gwnaeth y Comisiwn nifer o argymhellion i leihau'r cymhlethdod o ran perfformiad a llywodraethu, yn cynnwys:

'to explore opportunities to reduce complexity, simplify governance arrangements, encourage flexibility for delivery partners to innovate to achieve outcomes, and

¹ <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/130924-learning-improve-independent-assessment-wg-policies-lg-2007-2011-part-2-cy.pdf>

² https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/comisiwn-ar-lywodraethu-a-darparu-gwasanaethau-cyhoeddus-adroddiad-llawn_0.pdf

keep detailed guidance and funding conditions to a minimum. This will include considering options to: streamline funding arrangements; refine performance systems to encourage innovation, flexibility, preventative approaches and a real focus on outcomes; and develop the role of audit, inspection and regulation in supporting this agenda.'

